# Y DINESYDD

Awst 2020 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 450




gweler td. 5




Llun: ED

# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
**Bryan James**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

### *Golygydd Medi*

Cyfraniadau erbyn 27 Awst i:
david.charles10@btopenworld.com
20 Palace Aveunue, Llandaf,
Caerdydd.
07885 905318

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Pennaeth Glantaf yn Ymddeol



***Mae hi'n ddiwedd pennod arall yn hanes Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf gydag ymddeoliad y Pennaeth, Mr Alun Davies.***

***Dyma deyrnged iddo gan Mrs Elinor Patchell, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol.***

"Nawr, nawr, Davies. Dyna ddigon!"

Clywais y frawddeg honno droeon gan Alun pan feddyliai ei fod wedi gwneud rhyw sylw drygionus, dadleuol neu fyrbwyll. Ond gŵr pwyllog, ystyrlon yw Alun. Fel y tystia unrhyw un sy wedi cydweithio ag e.

Yn gynnyrch Ysgol Cathays a Choleg Aberystwyth, mae e yn *Cardiff born and Cardiff bred* – ond mae ei wreiddiau teuluol yn ddwfn yn nhir y Preselau, gwreiddiau a roes iddo yr 'annibyniaeth barn' a'i nodwedda a'r hyder i'w goleddu.

Daeth Alun i Lantaf ar ddechre cyfnod anodd. Dechreuodd yr esgid ariannol wasgu ar draws ysgolion. Cafwyd cwymp yn y niferoedd (ac felly y cyllid) yn dilyn agor Ysgol Bro Edern, gan lyncu rhan sylweddol o dalgylch Glantaf. Er bod hyn yn her enfawr, ymfalchïai Alun yn natblygiad Bro Edern a'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Yn wir, pan ymddangosai y byddai Bro Edern yn ddigartre, cytunodd heb oedi gynnig cartre dros dro iddi ar dir Glantaf.

Er bod budd Glantaf yn holl bwysig iddo, byddai yn ystyried buddiannau yr holl sector wrth ddod i benderfyniad.

Nid dyn y fantais tymor byr mohono. Gallai chwarae y gêm hir yn gelfydd. Pendronais yn aml ai'r amynedd hwn a'i galluogai i dynnu lluniau mor odidog o fyd natur a'r amglchfyd? Y parodrwydd i aros am y foment gywir i wasgu'r botwm? Oherwydd y mae Alun yn ffotograffydd nodedig, wrth ei fodd yn yr unigeddau, neu yn sefyll yn nŵr rhyw afonig anghysbell, yn barod gyda'i gamera.

Bu penodi Dr Rhodri Thomas yn ddirprwy iddo yn ddechrau ar bartneriaeth nodedig. Pan godai rhyw broblem a ni ein tri yn trafod datrysiad, hwyrach y byddai Alun yn dweud, "Falle dylen ni edrych ar y peth a'r peth." Bron yn ddiffael deuai'r ateb gan y Dirpwry, "Fe wnes i hynny neithiwr!" Dau ar yr un donfedd. Partneriaeth a ddygodd elw mawr i ddisgyblion Glantaf; partneriaeth a roddai llawn gymaint o bwys ar lwyddiannau aelodau o'r Uned Anghenion Ychwanegol ag ar gael enwi Glantaf yr ysgol orau yng Nghymru.

Wy'n hoffi meddwl mai 'ni'n tri mewn harmoni' oedd hi drwy gydol fy nghyfnod fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, cymal y byddai Dr Hefin Jones a Zac Davies yn medru 'amenio' am eu cyfnod hwythau fel Cadeiryddion.

Roedd bod mewn cyfweliad gydag Alun yn ddiddorol. Ei hoff gwestiwn oedd holi'r ymgeisydd am awgrymu llyfr y dylai ei ddarllen. Os awgrymywd gwaith gan awdur 'clasurol' cydnabyddedig, boed Gymraeg neu Saesneg, gallech fod yn siwr bod Alun eisoes wedi ei ddarllen – a gweithiau llai adnabyddus yr awdur. Dim ond un tro wy'n cofio iddo gael clywed am awdur nas darllenodd o'r blaen – ac awdur o Ddenmarc oedd hwnnw!

Gobeithio yn wir y caiff ymddeoliad hir, i ddarllen yn eang ac i fwynhau yr unigeddau gyda'i gamera. Mae'n ei haeddu.

***Mae darllenwyr y Dinesydd yn dymuno ymddeoliad hapus i chi Alun, gan ddiolch o galon i chi am eich cyfraniad ardderchog i lwyddiant Ysgol Glantaf a'i holl ddisgyblion.***

# Hel Meddyliau

Peth amser yn ôl cafwyd rhaglenni hynod o ddiddorol am yr iaith ar Radio Cymru dan arweiniad y prifardd Ifor ap Glyn a thros y blynyddoedd dwy'i wedi bod yn casglu geiriau, dywediadau, ymadroddion, penillion ac ati, sy wedi aros ar fy nghof er gwaethaf treigl y blynyddoedd! Felly, dyma fi'n mynd ati i rannu peth o'r deunydd gyda darllenwyr *Y Dinesydd*.

Ar hyd y blynyddoedd mae'r Cymry wedi bod yn hoff iawn o roi glasenwau ar bobl ac yn aml mae hynny wedi rhoi gwên ar ein hwynebau. Cesglais y rhestr ganlynol ym mhentref genedigol fy nhad – Lisi Bob Lliw, Bob Oel Lamp, Joanna Cerrigbeddi (odd dannedd mawr ganddi!), Elfed Dau Ŵy, Jac Spondar (gêm a chwaraeid gan y chwarelwyr llechi), Jac Ruth, Katie German, Wil South (fy nhad!), Harri Mul, a Jac c...dau!

Cofiaf weld Harri Mul pan on i'n blentyn ar fy ngwyliau yn yr haf, yn eistedd ar gadair wellt yn y stryd tu allan i'w dŷ hefo sbectol ar ei drwyn ac yn cogio darllen papur newydd â'i ben i lawr! Hefyd odd o wedi paentio clamp o goeden Nadolig ar dalcen ei dŷ ac wedi llifio gwaelod ei ddrws ffrynt i arbed agor y drws i'r gath! Ie, cymeriad a hanner odd yr hen Harri Mul.

Yn aml byddai fy nhad yn sôn ei fod yn mynd am y cando yn lle i'r gwely ac ar dywydd gwlyb byddai mam yn annog fy mrawd a minnau i ddod adre o'r ysgol ar ein hunion ac 'i beidio slotian yn y gwteri'! Gan fodryb i mi y clywais i'r ymadrodd 'cyn wired â bod bara mewn torth' a chan gefnder fy nhad y clywais i 'mae hi'n wfft ar y mynydd yn y gaeaf'. A chan fy nghyfnither y clywais i'r ymadrodd 'pa bwrpas prynu buwch ac yntau'n cael llefrith am ddim!' Ymadrodd a'm hogleisiodd odd clywed gwraig o'r enw Nancy Millward o Waelod y Garth yn dweud yn ei hacen Wenhwysaidd 'yn sytyn daw dydd Satwrn'.



Yn oes Fictoria bathwyd nifer o eiriau Cymraeg am wrthrychau cyffredin megis glawlen, perdonneg, blwch o fflachiadau, diwifr a ffrwchnedd am *fanana*! Ond yr unig un o'r geiriau uchod sy wedi goroesi ydy'r gair am *fanana* a ddefnyddir o ran hwyl. Ond mae pobl yn dal i fathu geiriau sy'n cydio megis tarw dur am *bulldozer* a pobty ping am *microwave* a theledu am *television*. Gyda llaw bathwyd y gair teledu o ganlyniad i gystadleuaeth. Tybed beth odd enw'r enillydd? A beth am sws pws fel ymgais i sôn am *sex kitten*!

Tra on i'n byw ym Mhatagonia dysgais i'r ymadrodd 'hen fel baco' a'r ymadrodd 'cadw bats' am ŵr sengl yn byw ar fferm ar ei ben ei hun a chan Mrs MacDonald, mam Elvey MacDonald, y clywais i'r ymadrodd 'ni chudd y grudd ddolur y galon' a beth am ran o bryddest Cynan Jones o'r enw 'Trysorau Cudd' a enillodd iddo Gadair Eisteddfod Bro Hyfryd 1929 -

Pe meddwn aur Periw  
a pherlau'r India bell,  
mae gronyn bach o ras fy Nuw  
yn drysor canmil gwell.

Go dda yntau?

Bues i'n fyfyriwr yn y Gyfadran Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac un tro es i wrando ar yr anfarwol Llwyd o'r Bryn yn siarad a chofiaf iddo ddweud 'on i fel pysgodyn mewn cae tatws' - *like a fish out of water* - ac mewn darlith gan Mary Clements dysgais yr ymadrodd 'Cymraeg odd iaith y galon ond Saesneg odd iaith y bol'!

Gorffennaf hyn o erthygl wrth ddyfynnu geiriau ysgytwol y bardd Waldo Williams sef -

Cadwn y mur rhag y bwystfil  
Cadwn y ffynnon rhag y baw.

*Gwilym E. Roberts*

# Athronwyr Caerdydd

Fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad sylweddol i athroniaeth ac i athronyddu yn y Gymraeg, mae Adran Athronyddol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru (Urdd y Graddedigion gynt) wedi cyflwyno'r Athro Howard Williams gyda chyfrol gyfarch, *Rheswm a Rhyddid*. Treuliodd Howard Williams y rhan fwyaf o'i yrfa yn darlithio mewn athroniaeth wleidyddol yn y Brifysgol yn Aberystwyth, lle roedd yn Athro, a bellach mae'n byw yng Nghaerdydd ac wedi ei ddyfarnu yn Athro Hybarch Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd.

Casgliad o ysgrifau gan athronwyr Cymreig ar wahanol agweddau ar syniadaeth wleidyddol yw'r gyfrol. Mae rhai yn trafod gwaith athronwyr pwysig hanesyddol fel Kant, Hegel a Marx, ac eraill yn trafod meddylwyr cyfoes fel Fukuyama, Rawls, Adorno a Foucault, mewn ysgrifau sydd yn ymwneud â hunaniaeth, cenedlaethlodeb a heddwch byd eang. Ymhlith yr ysgrifau ceir cyfieithiad Cymraeg o ysgrif allweddol gan Immanuel Kant, 'Ateb i'r Cwestiwn "Beth yw Goleuedigaeth?"'

Mae gan bob un o'r awduron gysylltiad â Chaerdydd.



Mae tri ohonynt yn gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef Huw Lloyd Williams, Dafydd Huw Rees a Garmon Iago. Brodor o Gaerdydd ac un o raddedigion Caerdydd yw David Sullivan, ac wedi ei ymddeoliad, un o ddinasyddion Caerdydd yw'r golygydd, Gwynn Matthews.

Meddai Gwynn Matthews, "Mewn oes lle mae gwleidyddiaeth boblyddol ar gynnydd, ym Mhrydain, Ewrop ac America, mae gwir angen treiddio'n ddyfnach na'r slogannau arwynebol sy'n nodweddu cymaint o'r disgwrs gwleidyddol cyfoes. Ymgais i ateb yr angen hwnnw yw *Rheswm a Rhyddid*".

Cyhoeddir *Rheswm a Rhyddid* gan Y Lolfa, a'r pris yw £7.99.

*Gwynn Matthews*

# Colofn Hannah



## *Y Border Bach 'to a lafant pêr Crwys*

Helo 'to.

Clywch,

W i newydd acor drws y bac, dewch 'da fi nawr mas i'r ardd, (ac ond y'n ni'n lwcus ei bod hi i ga'l yn y cyfnod 'ma, i ymestyn y'n bywyde ni 'm bach, ma wâc lan llofft nawr wedi mynd yn antur!!).

Dewch te.

Watshwch! Ma dou stepyn fanna!

Reit, lan â ni fel byrdwn at y border bach 'to.

Tro dwetha, welson ni Lili'r Dyffryn. Beth sy gyta'r border i gynnig heddi?

O! Clywch y sŵn 'na, Gymanfa'r Gwenyn, ma nhw'n dwmso rownd y blotyn porffor 'na -- wele Lafant pêr Crwys.

Yn ardal Treforys, ma hewl o'r enw Cwrt y Lafant, ma nhw'n gweud bod e'n tawelu chi, achos dyna un o nodweddion hwn – ymlacio a thawelu, a ma roi ei ddŵr e ar y glustog yn help i Siôn Cwsg alw heibo hefyd, a ma llosgi'r olew dros gannwll yn gwella pen tost. Ma'r gair Lafant yn mynd â fi nôl i Ffrainc, i Provence, ardal sy'n gyforiog o'r planhigyn. Y teimlad tawela geso i erio'd o'dd sefyll tu fas i abaty yno, gweld y mynachod yn gwitho ynghanol y meysydd o'dd o dan glogyn porffor, yr arogl yn cosi'r ffroene, a chlywed y mynachod erill yn canu siant ym mherfeddion yr abaty – tawelwch pur.

Dyma'r cefndir ysgogodd gerdd pan dda'th y testun 'Llonyddwch' mewn rhyw 'steddfod.

LLONYDDWCH

Crochan o gwm yn y gwres
yn ffrwtian yn Ffrainc,
tonnau porffor ar fôr wrth fynachdy,
a'r brodyr cwmanog
yng nghynaeaf eu cnwd.

Yma,
mae'r olew'n cusanu'r awel,
olew sydd yn eli,
olew sy'n tawelu ar glustog o gwsg,
planhigyn y suo gân.
Mae hwn yn gwahodd y gwenyn
i ddrachtio o'i win.
Wrth gasglu eu cynhaeaf
daw'r moli gyda'r mela,
canant eu cymanfa yn y perthi,
a'u hanthem yn felyster o foliant,
yn hwiangerdd o hedd.

Yma,
yng nghôl yr abaty hwn
ac enaid yn cael llonydd,
yn sŵn y siant a'r lafant,
mae llwybr y llonyddwch.

Ma'n dewish ni o *scent* heddi yn ddiddiwedd.

'Slwer dydd, o'n nhw'n defnyddio dŵr rhosyn, a lafant, a'i roi yn drâr gyta'r dillad, a'r dillad gwely. Yn ystod yr ail ryfel byd, olew hwn o'dd yr antiseptic at glwyfe, hefyd. Gellir rhoi olew lafant ar losg i helpu'r cro'n i wella, ne ar losg haul ne gnoiad pryfetyn. Gallwch wlychu'ch tra'd yndo fe i dynnu blinder mas, ac mae e'n dda at y 'cwlwm gwthi' – cramp! Bob tro 'w i'n 'hwfro', w i'n taenu lafant dros y llawr gynta, a mae e'n gatel gwynt ffres ar ei ôl.

Ma 'na lu o risetie yn cynnwys lafant. O'dd pâr o Dwrci yn arfer byw drws nesa, ac o'dd hi'n dod â thishen lafant i fi'n amal. Hi nawr yw'r prif gogydd yn Ikea.

Gair yr hen Roegwyr am lafant o'dd *nardus*, ar ôl y ddinas Naarda yn Syria. Clywn am yr eli yn y Beibl; dda'th Mair Magdalen â *nard* gwerthfawr i eneinio traed Crist. Daw'r gair lafant o'r Lladin *lavare* yn golygu 'golchi' – a dyna i chi *lavar* yn y Ffrangeg.

Wel, ma gyta ni un ne ddou beth arall yn tyfu yn y border bach, Mint a Theim yng ngofal rhyw Hen Ŵr. Cawn eu hanes nhw'r tro nesa. Ond cyn mynd, o's cnwd o lafant yn y'ch border bach chi? Os o's e, torrwch dwshged bach, a'i roi e miwn tishen.

Dyma riset Tishen Lafant.

350g o fenyn ne *farge*
350 g o siwgwr castor
350g o gan codi
6 wy
hanner llwy de o esens fanila
llond llwy de a hanner o la'th
llond llwy gawl o flote lafant wedi'u sychu

EISIN
Eisin, nawr, i'w roi ar dop y dishen
25g o siwgwr eisin
dicon o ddŵr i neud past tene
hanner llwy de o flote sych y lafant

Ffwrn -- 170
cymysgu'r siwgwr a'r menyn
ychwanegu'r wye'n araf ar y'n ail a'r can
yna'r lla'th i gymysgu â'r fanila,
wetyn y blote

Ei roi mewn tun a'i goginio am 30 - 45 munud
Wedi iddo oeri rhowch yr eisin dros ei gopa ac addurnwch â blote, a JOIWCH!!!!

Tan tro nesa,
Iechyd Da.

Efallai nad oes Eisteddfod Genedlaethol draddodiadol i'w chynnal eleni, ond mae'r trefnwyr wedi bod wrthi'n brysur yn creu rhaglen lawn o weithgareddau o bob math i lenwi'r gofod yn ystod yr wythnos.

Wrth gwrs, mae Eisteddfod AmGen yn rhedeg ers bron i dri mis, ond mae popeth yn newid gêr ddiwedd yr wythnos, wrth i bron i 500 o weithgareddau gael eu cynnal ar draws pob math o blatfformau digidol.

Ond beth yn union yw Eisteddfod AmGen ac ym mhle y gellir dod o hyd i'r holl gynnwys amrywiol sy'n cael ei greu a'i recordio ar hyn o bryd? Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod sy'n egluro.

"Fel pawb arall, roedden ni'n teimlo'n anobeithiol iawn ar ddiwedd Mawrth pan fu'n rhaid i ni ohirio, ond roedden ni'n benderfynol o'r cychwyn ein bod ni'n rhoi rhyw fath o flas o'r Eisteddfod i bobl, nid yn unig yn ystod 'wythnos yr Eisteddfod' ei hun ond hefyd yn ystod y cyfnod cloi.

"Ac mae'r ymateb wedi bod yn wych mae'n rhaid dweud. Diolch i bawb sydd wedi mwynhau ac wedi cyfrannu dros yr wythnosau diwethaf. Ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cael yr un mwynhad o'r arlwy ar eu cyfer yn ystod yr wythnos ei hun.

"Rwy'n credu ein bod ni wedi llwyddo i greu amserlen hynod amrywiol. Yn gymysgedd ddifyr o'r newydd a'r archif, mae nifer fawr o gomisiynau newydd wedi'u creu ac yn gweld golau dydd am y tro cyntaf yn ystod wythnos Eisteddfod AmGen.

"Mae'r rhain yn cynnwys nifer o brosiectau a fyddai wedi'u perfformio ym mhabell Encore, ac yn cynnwys sioe gerdd gwta newydd sbon gan Robat Arwyn a Hywel Gwynfryn yn olrhain hanes y Chwiorydd Davies o Gregynog, gyda Mared Williams, Celyn Cartwright a John Ieuan Jones, cyn-enillwyr, a pherfformwyr sydd yn prysur wneud enw i'w hunain yn y byd cerddorol.

"Mae nifer o sesiynau fydd yn gwbl adnabyddus i'n cynulleidfa – pethau fel y Stomp Werin a'r Ymryson. Efallai'u bod yn cael eu cynnal yn electronig eleni, ond yr un fydd yr hwyl a'r mwynhau. Mae platfformau fel Facebook yn ein galluogi ni i ymgysylltu gyda'r gynulleidfa yn fyw, ac mae hyn wrth gwrs yn rhan bwysig o'n gwaith ni, wrth i ni wneud ein gorau i apelio at Eisteddfodwyr selog a theyrngar a chynulleidfaoedd newydd.

"Hyd yn hyn, mae cynnwys AmGen wedi'i wylio dros 250,000 o weithiau ar draws platfformau amrywiol, ac er ei fod yn edrych yn wahanol – a thamaid yn gymhleth ar yr olwg gyntaf efallai – fe fydd pawb yn dod i arfer gyda'r gwahanol blatfformau'n fuan iawn.

"Yn bersonol, rydw i'n meddwl am y platfformau fel crwydro'r Maes. Fel arfer, mae'n cymryd rhywfaint o amser i ddod i wybod lle mae pob adeilad – lle mae Cymdeithasau? I'r chwith neu'r dde o'r brif fynedfa? A beth am Theatr y Maes? Ac mewn gwirionedd, dyw Eisteddfod AmGen yn ddim gwahanol. Edrychwch ar y rhaglen a gweld beth yw'r platfform, ac ewch i chwilota – a hynny heb orfod gadael y soffa neu'r ddesg!

"Y lle gorau i gychwyn yw ar wefan yr Eisteddfod. Mae'r holl wybodaeth ar gael yma, gan gynnwys manylion o'r platfformau amrywiol. Ac fe fyddwn ni'n gosod y sesiynau ar ein gwefan ac ar ein sianel YouTube (sy'n wych os ydych chi am wylio ar sgrin deledu).

"Fe fydd yr amserlenni i gyd wedi'u gosod ar y wefan, a gallwch grwydro o adeilad i adeilad, ac wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen, o ddiwrnod i ddiwrnod hefyd. A'r peth gorau am hyn i gyd? Does dim angen poeni eich bod chi wedi methu sesiwn – bydd pethau ar gael i'w gwylio'n ôl, felly dim angen rhedeg o un pen i'r Maes i'r llall – am eleni o leiaf!

"Cofiwch hefyd am arlwy ar y teledu a'r radio'n ystod yr wythnos, ac rydym yn cydweithio gyda BBC Cymru Fyw, er mwyn dangos pigion o'r Pafiliwn dros y blynyddoedd a chomisiynau newydd Encore.

"Felly, gobeithio y gallwn ni roi blas i chi o beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd chi yn yr Eisteddfod fel rheol, drwy gyfrwng yr Eisteddfod AmGen eleni. Yr unig beth fydd yn wahanol yw'r cymdeithasu wrth gwrs, a gobeithio'n arw y gallwn ddod ynghyd yn Nhregaron ymhen y flwyddyn ar Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion er mwyn gwneud iawn am hynny!"

Ewch i www.eisteddfod.cymru am fwy o wybodaeth.

---

## Saesneg yn unig mewn cyfarfodydd: ydy e'n dderbyniol?

Neu fasai'n well gyda chi bod cyfieithu ar y pryd ar gael er mwyn cyfrannu yn eich iaith chi, pa bynnag iaith yw hi? Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae llawer o bobl yn troi i gwrdd dros y we, gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau. Mae rhai o'r rhain yn cynnig nodwedd cyfieithu ar y pryd e.e. Zoom.

Ond nid Microsoft. Maent yn mynnu 2000 o lofnodion cyn ystyried cynnig y nodwedd hon ar eu llwyfan fideo-sgwrs, Teams. Mae dolen isod ar gyfer llofnodi. Cewch bleidleisio gyda mwy nac un cyfeiriad e-bost, os oes sawl un gyda chi.

Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch sy wedi pleidleisio'n barod. Ond gorau po fwyaf! Po fwyaf o lofnodion, po fwyaf y sbardun i Microsoft i ddarparu'r nodwedd.


Felly os nad ydych wedi llofnodi, ewch ati ar unwaith i wneud hynny.

https://microsoftteams.uservoice.com/forums/555103-public/suggestions/37615447-add-functionality-for-simultaneous-interpretation

Diolch bawb!
Rwth Treganna

# RHAI ATGOFION O EISTEDDFODAU'R GORFFENNOL

Mae'n siwr mai'r cof cyntaf sy gen i o fynd i Eisteddfod Genedlaethol oedd yn 1953 pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Rhyl. Cofiaf yn iawn cael bod yn rhan o gôr plant ysgolion cynradd Cymraeg Sir Fflint o dan arweiniad medrus y diweddar Gwyneth Alban Jenkins. Dyna i chi fraint oedd cael perfformio ar lwyfan y Brifwyl! Roedd y pafiliwn ar y nos Fawrth dan ei sang a ni blant yn mwynhau cydganu nifer o alawon gwerin megis 'Fflat Huw Puw', 'Breuddwyd y Frenhines', ynghyd â nifer o ganeuon eraill. Profiad bythgofiadwy i blentyn ifanc.




*Carys ac Aled Lloyd Davies*

Ychydig a feddyliais bryd hynny y buaswn i'n ôl yn Eisteddfod Genedlaethol Rhyl 1985 yn cyfarwyddo sioe gerdd a thri chant o blant yr ardal yn cymryd rhan ynddi. *Hei di Ho* oedd enw'r sioe a'r Dr Aled Lloyd Davies a Gareth Glyn oedd yn gyfrifol am y sgript a'r gerddoriaeth a Rhys Jones yn gyfarwyddwr cerdd. Golygodd fisoedd o ymarfer caled ac ar ôl yr holl waith fe gafodd y plant gymaint o brofiadau o fod yn rhan o sioe mor fawr a hynny ar lwyfan yr Eisteddfod. Ymysg y perfformwyr yr wythnos honno roedd tair o ferched bach bywiog iawn. Tybed ydy aelodau'r grŵp Eden yn cofio'r achlysur?

Do, fe gefais gyfle ar sawl achlysur i weithio ar sioeau yn y pafiliwn a braint neilltuol oedd cael cydweithio gydag Aled a Rhys, dau a oedd mor dalentog, amryddawn a hwyliog.

Pan ddaeth yr Eisteddfod i Wrecsam yn 1977 bûm yn ysgrifennydd y Pwyllgor Drama ac Adrodd, fel y gelwid ef bryd hynny, a'r diweddar Barchedig Eifion Powell oedd y cadeirydd. Yn y cyfnod hwnnw cyngerdd mawreddog oedd yn nodi cychwyn yr Eisteddfod ar y nos Sul a'r gweithgareddau eraill yn cychwyn ben bore Llun. Tra roedd mawrion y genedl yn aros i fynd i'r cyngerdd fe biciodd Eifion a minnau i weld sut siap oedd ar Theatr Fach y Maes a fyddai'n cynnal holl weithgareddau ein pwyllgor drwy gydol yr wythnos. Siom o'r mwyaf oedd gweld y lle yn llawn sbwriel a llanast ac i goroni'r cwbl doedd dim trydan yno chwaith! Aethom yn syth i gwyno i swyddfa'r Eisteddfod a chael sicrwydd gan y swyddogion y byddai'r cyflenwad trydan yn ei le cyn y bore ond, yn anffodus, ein cyfrifoldeb ni fyddai glanhau'r lle. Fel canlyniad fe dreuliodd y ddau ohonom weddill y min nos ar ein gliniau yn sgwrio'r lloriau tra'n gwrando ar seiniau godidog Cerddorfa'r Halle a Chôr Gŵyl Dyfrdwy a Chlwyd o dan arweiniad Owain Arwel Hughes, yn cyflwyno Requiem Verdi oddi ar lwyfan y pafiliwn!

Dros y blynyddoedd dwi wedi profi cyffro cystadlu yn ogystal â chael y pleser o feirniadu gwahanol gystadleuthau. Bûm yn aelod, ac, ar fy nhro, yn gadeirydd Panel Drama'r Brifwyl a oedd, ac sydd, yn gyfrifol am lywio polisiau'r Eisteddfod ym myd y theatr a drama.

Mae'r Eisteddfod wedi bod yn agos iawn at fy nghalon i erioed ac yn Eisteddfod Sir Fflint a'r cyffiniau 2007 cefais fy urddo i'r wisg wen fel cydnabyddiaeth o'm gwaith i'r Brifwyl yn ogystal â'm gwaith yn hybu gweithgareddau drama yn ysgolion y sir. Yn sicr dyma'r anrhydedd mwyaf i mi ei dderbyn erioed ac mae'r achlysur yn dal yn fyw iawn yn fy nghôf. Braint oedd cael dychwelyd i fro fy mebyd i dderbyn yr anrhydedd a chael cydgerdded at Feini'r Orsedd yng nghwmni neb llai na Llŷr Williams, y pianydd disglair o ardal y Rhos.

Eleni ni fydd ein carafan yn teithio i Dregaron. Wedi pedwar deg chwech o flynyddoedd o garafanio o eisteddfod i eisteddfod bydd ein carafan yn segur ar ddechrau Awst. Serch hynny, mae swyddogion swyddfa'r eisteddfod mor brysur ag erioed. Er gwaetha'r Covid-19 maent wedi mynd ati i sefydlu AmGen ac ers tro bellach mae nhw wedi bod yn paratoi arlwy eisteddfodol i ni ar y cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol. Ac yn goron ar y cwbl fe fydd gŵyl arbennig yn cael ei chyflwyno ar y teledu a'r radio yn ystod penwythnos cyntaf mis Awst er mwyn i ni gael rhagflas o Eisteddfod Tregaron yn ein cartrefi. Diolch i'r Prif Weithredwr Betsan Moses a'i staff am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer a hynny dan amodau anodd gan ein bod yn byw mewn cyfnod mor ansicr a phryderus.

Beth fydd dyfodol yr Eisteddfod yr ydym ni wedi arfer â hi? Beth bynnag fydd trefn a fformat eisteddfodau'r dyfodol mae'n ddyletswydd arnom i'w chefnogi. Wedi'r cyfan, mae'r Brifwyl hon yn unigryw i Gymru ac mae'n rhaid ei hanwylo a'i hanwesu.

*Carys Tudor Williams*



*Carys a Llŷr Williams*

# STEDDFOTA !

“Pawb yn gwrando nawr! Mae seremoni’r Coroni ar fin dechrau”. Byddai Mam yn ein crynhoi ni blant o gwmpas y set radio yn y gegin am ddau o’r gloch ar bnawn Mawrth ac eto ar bnawn Iau yn ystod wythnos gyntaf Awst yn ddiffael, ac rwy’n dal i gofio’r wefr pan fyddai’r utgyrn yn seinio a’r Archdderwydd, mewn llais awdurdodol, yn cyhoeddi enwau’r beirdd buddugol. Dyna fy nghof cyntaf i o’n Prifwyl.

Ond y tro cyntaf i mi ymweld â’r Eisteddfod Genedlaethol oedd yn 1949; mynd am y dydd ar y bws o Aberystwyth i Ddolgellau. Mae’n debyg fod Alun yno hefyd yn gwerthu hufen iâ ond sylwais i ddim arno!

Dwn i ddim a yw hyn yn record, ond dim ond un Eisteddfod ydw i wedi’i cholli ers hynny, sef 1965 yn Y Drenewydd, a cholli honno am fod Betsan yn dod i’r byd. Druan o Betsan! Picnic o barti penblwydd gafodd hi drwy ei phlentyndod, a hwnnw, yn amlach na pheidio, yn ardal y Comisiwn Coedwigaeth ar y maes.

I ni, mae’r Steddfod yn ymestyn o’r Seremoni Agoriadol hyd at y feirniadaeth olaf ar y dydd Sadwrn canlynol. Rwy’n ceisio ymgydnabyddu â’r maes a tharo i mewn i’r stondinau reit ar ddechrau’r wythnos trwy ddilyn y map a chofio nodi lleoliad y toiledau! Fe fyddwn ni hefyd yn bresennol yn yr Oedfa, ac wrth ein boddau yn y Gymanfa Ganu ar y Sul.

Ond y llwyfan mawr yw fy niddordeb i ac yn fy sedd y bydda i am oriau bwygilydd am weddill yr wythnos. Erbyn hyn rwy’n gallu edrych yn ôl ar flynyddoedd o gystadlu, hyfforddi a beirniadu, ac wedi gweld cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o bobol ifanc yn cael cyfle i ddatblygu eu talent. Sylwch pa mor aml y bydd pobol sydd wedi cyrraedd y brig yn eu proffesiwn yn talu teyrnged i’r Eisteddfod am y cyfle gawson nhw i fwrw’i prentisiaeth.

Doeddwn i ddim yn blentyn oedd yn mynd ‘o steddfod i steddfod’, chwedl y canwr Huw Edward. Y tro cyntaf i fi gamu ar lwyfan cenedlaethol oedd yn Eisteddfod yr Urdd yn Rhydaman, yn cystadlu ar y llefaru, ac yna’r unawd cerdd dant, dan bump ar hugain. Roeddwn i mor nerfus nes bo’ nghoesau i’n crynu, ac meddai’r Arweinydd Llwyfan, y diweddar Barchedig Jacob Davies “Rhowch eich sawdl yn solet ar y llawr”. Rhaid ei bod hi’n corco! Cyngor da, oherwydd fe gefais i’r wobr gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth.

A dyna ddechrau cyfnod o gefnogi eisteddfodau bach a mawr. Ers blynyddoedd bellach mae’n llawer gwell gen i hyfforddi na chystadlu. Mae trafod, dadansoddi a dehongli cerdd gyda pharti neu gôr cyn ei chyflwyno yn rhoi boddhad a phleser di-ben-draw i fi. Bydd raid i rywun arall gymryd y cyfrifoldeb wedyn yn y rhagbrawf a chefn-llwyfan oherwydd fe fydda i’n swp o nerfau ac yn dda i ddim i neb. Felly, cadw draw sydd ore!

Am flynyddoedd, tra’r oedden ni’n byw yn y gogledd, fe dreuliais i oriau yng nghwmni Parti’r Foel, Brynsiencyn, Ynys Môn, a chyda Merched y Wawr, Tregarth yn eu paratoi ar gyfer myrdd o gystadleuthau. Pedwarawd y Wenallt wedyn, yn cael y marc anrhydeddus o 96 yn y Genedlaethol yn Rhuthun yn 1973. Yn y blynyddoedd diwetha’ ‘ma, daeth y cyfle i hyfforddi Parti’r Wenallt, Caerdydd, yna cyd-aelodau yn Eglwys Minny Street, a synnu a rhyfeddu fod y criw o ddisgyblion hoffus, byrlymus, yn Ysgol Plasmawr yn gallu dysgu a chofio mewn chwinciad!

O ran beirniadu, y gystadleuaeth sy’n aros yn y cof yw’r un i barti llefaru yn Eisteddfod Bro Colwyn, Abergele 1995, pan ddaeth cynifer â deunaw, os cofia i’n iawn, i’r rhagbrawf yn un o gapeli’r dre i gyflwyno cerdd Gwilym R. Jones ‘Cwm Tawelwch’. Roedd y lle o dan ei sang a phobol yn eistedd ar silffoedd y ffenestri drwy’r prynhawn. A phrynhawn i’w gofio oedd hwnnw i gynulleidfa’r Pafiliwn hefyd pan oedd yr Archdderwydd, John Gwilym, yn coroni ei frawd, Aled Gwyn. Byddai’n cadeirio ei fab, Tudur Dylan mhen deuddydd. Bois Parc Nest yn creu hanes.

Yn Eisteddfod Dinbych 2001 y cefais i fy anrhydeddu â gwisg wen Gorsedd y Beirdd, Gorsedd Cymru bellach.

Fe glywch chi rai, o bryd i’w gilydd, yn cyfeirio at Steddfod y llwch, Steddfod y mwd, a Steddfod Meifod 2003 lle nad oedd na llwyn na choeden i gysgodi rhag y gwres llethol. Dyna pam y bydd Alun yn gofyn yn flynyddol, wrth ymlafnio i godi’r cês i gist y car “Ydyn ni’n mynd am fis?”!

Ar gyfer Eisteddfod Llambed 1984 fe gynlluniodd y gôf-arian, Rhiannon Tregaron, lwy-de fach gyda logo’r Eisteddfod honno ar ben y goes. Fe ddaliodd i wneud hynny’n flynyddol hyd Eisteddfod Tyddewi 2002. Wedyn fe fabwysiadodd yr Eisteddfod ei logo swyddogol. Eleni, fodd bynnag, mae Rhiannon wedi creu un llwy arall ac rwyf inne yn edrych ymlaen i gwblhau fy nghasgliad i o ugain llwy. Marian Evans, Radur, sydd wedi llunio a gwnïo’r rholyn sy’n eu cadw mewn trefn, a hynny allan o ddeunydd sy’n cydweddu â lliwiau logo’r Brifwyl.

Cryn siom i ni fel teulu, fel i filoedd eraill, oedd gorfod gohirio’r Ŵyl eleni a theimlo dros y Cardis sydd wedi cydweithio mor effeithiol ac mor llawen wrth baratoi at eu Steddfod nhw yng Ngheredigion. Ond, os Duw a’i mynn, gobeithio y caf i daro ar ambell un ohonoch chi ar y maes ymhen y flwyddyn. Ond fydd dim raid i chi ofyn ”Ydych chi yma am yr wythnos?” Fe wyddoch yr ateb.

*Rhiannon Evans*



*Rhai o lwyau Eisteddfodol Rhiannon Tregaron*

# Ryseitiau Merch y Ddinas



## Lowri Haf Cooke

*Pen-blwydd Hapus, Lowri!*

Wel, dyma brofiad newydd, sgwennu colofn mis Awst – fel arfer, dyma'r mis i fwynhau ysbaid, ac i sawru arlwy'r Brifwyl. Ond fel cymaint o bethau eraill yn ystod y cyfnod gofidus hwn, chawn ni'm creu twrw yn Nhregaron eleni. Yn hytrach, caf drefnu 'parti' pen-blwydd, oherwydd bydd pawb - am unwaith - 'o gwmpas' wythnos gyntaf mis Awst! Picnic yw'r bwriad, cyfarfod â ffrindiau 'o bellter', yn y castell, neu un o barciau'r Brifddinas. Gawn ni weld beth fydd ar y fwydlen – ges i flas ar West Pizza (gan griw Ffwrnes yn Grangetown), a tacos a tequila La Pantera ar Stryd y Cei – y ddau'n opsiynau newydd grêt fel 'tec-awe'. Ond rwy'n tybio y bydda i'n hapus i baratoi danteithion lu, gan gynnwys coctels, a tharten... neu dri!

Mwynheais goginio â chynnyrch 'Gwanwyn yn y Ddinas' - fel blodau'r ysgaw, garlleg gwyllt a dant y llew – a dwi'n falch i ddweud fod yr ysfa i greu yn parhau. Bu'n braf cynnwys mintys o ardd ffrind ar gyfer coctel Mojito, a ges i fagiad o letus ffres o dŷ gwydr cymydog. Wrth i mi sgwennu'r golofn hon, mae mis Gorffennaf yn dirwyn i ben; ffrwythau'r haf sy'n dwyn fy sylw, gan gynnwys ceirios ac eirin Mair. Bydda i'n bendant am ail-greu'r ryseitiau canlynol ar gyfer picnic fy 'mharti' pen-blwydd!

Roedd drama deledu *Twin Peaks* yn ffefryn 90aidd gen i, yn arbennig cymeriad Asiant Cooper o'r FBI a'i hoffter o goffi a '*damn fine cherry pie*'. Felly am y tro cyntaf yn fy myw es i ati i bobi tarten geirios gan ddilyn cyfarwyddiadau Nigel Slater. Waw! Feiddien i'm hawlio ei rysait arbennig ef, ond mae e i'w ganfod yn ddigon hwylus ar y we. Ond gyda'r ceirios creais surop, a arweiniodd at goctel o fri, Sling Jin Ceirios Sur...

**Sling Jin Ceirios Sur**
1 mesur Surop Ceirios
1 mesur Jin
1 mesur Cointreau
Sudd 1 Leim
Dŵr Soda (opsiynol)
Rhew



I greu'r surop ceirios, tynnwch y cnau o 600g o geirios, yna'u mudferwi mewn 300g o ddŵr gyda 100g o siwgwr mewn sosban ar wres isel am awr. Os oes amser, gadewch y gymysgedd i oeri dros nos. Yna, rhidyllwch y ffrwyth dros fowlen (a chadw'r ceirios ar gyfer y darten). Arllwyswch y surop i botel neu jar – fe ddylai gadw yn yr oergell am hyd at fis.

I greu'r coctel, arllwyswch y jin, surop ceirios, sudd leim a Cointreau i *'shaker'* coctel dros rew. Ysgwydwch yn dda am hanner munud, yna arllwyswch i'ch hoff wydr – gan ychwanegu dŵr soda ato os y dymunwch - a'i addurno gyda cheirios a sleisen o leim. Am 'foctel' neu goctel di-alcohol, cyfunwch fesur o surop gyda dŵr soda. Ŵ la la!

A sôn am goctel o fri, dyma un arall, gan ddefnyddio surop eirin Mair (*gooseberries*). Dwi'n caru eu blas chwerwfelys ar hyn o bryd, felly es ati i greu 'Pwdin Haf' eirin Mair. Roedd hwnnw'n ardderchog gyda hufen, neu gwstard – yna *'chaser'* o goctel 'Iawn Del'!

**Iawn Del?**
1 mesur Jin
1 mesur surop eirin Mair
Sudd hanner Leim
Rhew



I greu'r surop eirin Mair, tociwch 200g o eirin Mair a'u mudferwi mewn 60ml o ddŵr gydag 80g o siwgwr mewn sosban ar wres isel (gyda'r caead ymlaen) am ddeg munud, cyn gadael y gymysgedd i oeri. Yna, rhidyllwch y ffrwyth dros fowlen (a chadw'r eirin Mair ar gyfer y pwdin haf). Arllwyswch y surop i botel neu jar – fe ddylai gadw yn yr oergell am hyd at fis.

I greu'r coctel, arllwyswch y surop eirin Mair, y jin a'r sudd leim i 'shaker coctel' dros rew ac ysgwydwch yn dda am hanner munud. Arllwyswch i'ch hoff wydr, cyn addurno â gwsberan a sleisen o leim ar bren coctel. Am 'foctel' neu goctel di-alcohol, cyfunwch fesur o surop gyda dŵr soda. Iechyd Da!

**Pwdin Haf Eirin Mair**
500g o Eirin Mair
60g o Siwgwr
50ml o Ddŵr
Torth o Fara
Hufen neu Gwstard



Tociwch 500g o eirin Mair cyn eu mudferwi gyda'r dŵr a'r siwgwr mewn sosban ar wres isel am 5 munud. Gadewch y gymysgedd i oeri - dylai fod yn gyfuniad o ffrwyth a surop (hylif melys). Estynwch am fowlen, a torrwch dafelli trwchus o fara, gan hepgor y crystiau, a socian y bara yn ysgafn yn yr hylif / surop eirin Mair.

Torrwch gylch o'r bara yn gyntaf a'i osod ar waelod y bowlen, cyn gosod tafelli eraill o fara i orchuddio arwynebedd mewnol y bowlen. Gosodwch draean o'r eirin Mair yn y 'fowlen fara', cyn gosod tafell arall o fara drosto, yna parhewch i lenwi'r fowlen â gweddill yr eirin Mair.

Torrwch gylch mawr o fara i orchuddio arwyneb y fowlen; os nad yw'r cylch yn gorchuddio popeth, torrwch ddarnau bychain o fara i guddio'r tyllau. Gosodwch blât ar yr arwyneb (â phwysau arno e.e. tuniau bwyd) a'i osod yn yr oergell am 24 awr. Yna, tynnwch y fowlen o'r oergell a'i adael am awr ar dymheredd ystafell i helpu 'llacio'r' pwdin o'r fowlen. Tynnwch gyllell o amgylch y pwdin i helpu i'w ryddhau o'r fowlen ymhellach. Yna, trowch y fowlen ben i waered yn ofalus, a gosod y pwdin ar blât. Taenwch y pwdin â siwgwr eisin, yna'i dorri megis cacen a'i weini'n oer a chwstard neu hufen. Pwdin haf hapus i chi!

# Pobol y Rhigwm

Y dasg y tro diwethaf (tasg 34), oedd llunio pennill, englyn neu gerdd o unrhyw fath i George Floyd. Fe gofiwch mai George Floyd oedd y dyn a laddwyd dan ben-lin yr heddlu ym Minneapolis fis Mai eleni, gweithred a sbardunodd brotestiadau ledled y byd. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dyma gyhoeddi'r un gerdd a ddaeth i'r brig.

Mae cerdd Alph yn cyfleu pa mor wrthun yw'r weithred â thelyneg gynnil. Gan i ni gael ein creu'n gyfartal, mae'r ffaith fod rhai'n rhagfarnu ar sail lliw croen yn gwbl ddisynnwyr. Lliwiau sy'n clymu'r gerdd ynghyd, a'r ergyd ar y diwedd yw mai unlliw yw gwaed pawb waeth beth fo lliw eu croen. Mae testun pregeth yma ond heb fod yn bregethwrol, a digon trawiadol yw'r diweddglo. Diolch i Alph am gystadlu ac mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf y mis hwn.

**Enillydd tasg rhif 34 yw**
**Hannah Roberts, Llandaf**

### GEORGE FLOYD

O frigau'r coed
Cymerodd 'Dechreuad'
Y gweill i weu dynion
Ym mhatrwm y cread.

Daeth gwlân o'r cymylau,
Gweu menyw a dyn
Yn batrymau diddorol
O bob lliw a llun.

Tynnodd un lliw o'r machlud
Yn ffurfafen y byd,
Un lliw i bwytho
Ein gwaed ni i gyd.

Pawb yn gyfartal,
Nes clywodd ryw ddydd
Y geiriau dirdynnol,
'Let go, I can't breathe.'

Y gwyn oedd y gormeswr
Y Du oedd dan ei wae,
O bigo'i groen, fe welai'r gwyn
Taw coch oedd gwaed y ddau.

*Alph*

### Tasg 35

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr (tasg 35) yw gweithio limrig sy'n cynnwys y llinell:
**'Pan fydd y pandemig 'ma heibio.'**

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn 20 Awst 2020.

*Emyr Davies*


# Agor siop newydd

Dechreuwyd y busnes Driftwood Designs yn 2005 gan yr artist Lizzie Spikes. Gan ei bod yn byw ar yr arfordir ger Aberystwyth, treuliodd amser yn cerdded ar hyd y traethau yn casglu *'driftwood'* i beintio a chreu darnau o gelf. Wrth i'r busnes dyfu, yn 2012 ymunodd Becky, ei ffrind ers plentyndod, gyda'i hymennydd trefnus a'i chariad at ambell *'spreadsheet'*!!! Roeddent yn brysur yn peintio, pacio a phostio ar fwrdd y gegin cyn adeiladu sied ar waelod yr ardd i gael mwy o le. Buan iawn y sylweddolon nhw nad oedd y sied yn ddigonol, ac agorwyd eu siop gyntaf yn Aberystwyth ym mis Medi 2017.

Aeth y fenter o nerth i nerth a chynlluniwyd i agor siop newydd yn Castle Arcade yng Nghaerdydd ar 24 Mawrth 2020! Methwyd â gwneud hynny oherwydd yr amgylchiadau, ond bellach mae Siop Fach Caerdydd ar agor – ac mae aelod newydd o dîm Driftwood Designs, Eleri Wyn, yn edrych ymlaen i'ch croesawu.

Fel arwydd o'r croeso mae'r cwmni'n cynnig 10% o ostyngiad i ddarllenwyr y Dinesydd yn ystod mis Awst – dim ond i chi fynd â'r tocyn yma gyda chi.

Manylion cyswllt: Rhif ffôn: 029 2023 2229
Facebook: Lizzie Spikes - Driftwood Designs
Instagram: drifteddesigns




# LLONGYFARCHIADAU

Cyfarchion gwresog i longyfarch a dymuno'n dda i Jean a Malcolm Thomas ar achlysur dathlu eu priodas ddiemwnt ar ddydd Iau, 6 Awst. Priodwyd y ddau yng nghapel Bethesda'r Tymbl gan un o bregethwyr mawr y cyfnod — y Parchg E. Eurfin Morgan.

Mae Malcolm Thomas yn gyfarwydd iawn i genedlaethau o blant Caerdydd gan mai ef oedd prifathro cyntaf Glantaf.





# Yr Athro Glyn Owain Phillips 1927 - 2020

Braint aruchel yw llunio teyrnged i un o arwyr Cymru ar sail disgleirdeb ei waith proffesiynol, mewn gwyddoniaeth ac addysg, ac ar sail ei wasanaeth cymdeithasol yn gymwynasgarwr hael a chydwybodol mewn gwyddoniaeth ac addysg ar draws y byd. Nid gwyddonydd unrhyw dŵr ifori oedd Glyn. Mawr iawn yw'r fraint i lawer ohonom sy'n cofio bod yn ei gyfnod ac yn ei gwmni mewn sawl cyd-destun. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda Mrs Phillips (Rhiain, bob amser - ni fyddai pall ar gyfeiriadau Glyn at ei chefnogaeth ar hyd y siwrnai) a'r teulu.

Dyma ran o lythyr a dderbyniais ganddo wrth baratoi posteri Gwyddonwyr Cymru yn 1992.

*Aeth cychwyniadau fy ymchwil gwyddonol, yn dilyn ennill graddau (B.Sc. Ph.D) ym Mangor â mi yn dilyn ennill ysgoloriaeth ymchwil i Harwell, lle roedd y gwyddonydd academaidd mawr hwnnw Syr John Cockroft yn Gyfarwyddwr. Ei bwyslais ef oedd na ddylem chwilio am ganfyddiadau ymarferol, ond dilyn ymchwil yn ei rhinwedd ei hun……..bûm yn astudio effeithiau ymbelydriadau niwclear ar garbohydradau. Yn awr, 40 mlynedd yn ddiweddarach, rwyf wedi gallu cymhwyso'r ymchwil hwnnw. Byddwn yn defnyddio ymbelydriad i ddiheintio meinwe dynol (esgyrn, croen, ffasgwe, gewyn, cartilag) ac yna defnyddio mewn trawsblaniad. Galluogodd yr ymchwil sylfaenol hwnnw ni i gyflawni hyn heb niweidio'r meinwe dynol.*

*Yn yr un modd byddwn yn defnyddio deunydd naturiol (asid hyaluronig – polysacarid) i drin arthritis, gan mai hwn yw'r cynhwysyn yn hylif synofaidd (sy'n iro cymalau'r corff dynol) sy'n cael ei niweidio…mewn ymosodiad arthritis…… Y cyfan hyn o ymchwil 'dibwrpas' Syr John Cockroft.*

Yn y llun ohono yn 2012 yn cael ei dderbyn yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru mae'r Athro Syr John Cadogan o Abertawe. Pan oedd Cadogan yn darlithio byddai'n hoff o wneud datganiad heriol – 'Dau fath o gemeg sy'n bodoli, sef, cemeg gymwysedig a chemeg heb ei chymhwyso eto'. Roedd Glyn yn enghraifft berffaith o ymgorfforiad datganiad John Cadogan; roedd ei holl waith gwyddonol wedi'i anelu at ddefnyddio'i ddysg er lles eraill.

Gyda'r ysgoloriaeth yn Harwell yn dod i ben, enillodd le ar staff Adran Gemeg yn y brifysgol yng Nghaerdydd, gan ddechrau ym Medi 1954. Gyda nawdd sylweddol gan Harwell sefydlodd Glyn ei hun yn arweinydd tim o ymchwilwyr i barhau'r gwaith ac adeiladu ar y profiad a gafodd yn Harwell ac a lywiodd ei holl yrfa ymchwil. Yn y cyfnod hwn gwelwyd ochr gymdeithasol Glyn wrth iddo arloesi rhaglenni gwyddoniaeth ar y teledu. At hyn oll bu'n weithgar iawn ei gefnogaeth i egwyddorion Y Deml Heddwch.

Er syndod i lawer ymadawodd Glyn a'r teulu am Brifysgol Salford ym Medi 1968 lle bu'n Athro a Phennaeth yr Adran Gemeg, ond ymgartrefu ymhen dwy flynedd yn Yr Wyddgrug. Bu'r cyfnod hwn yn hynod gynhyrchiol o ran ei ymchwil, ond yn fwy fyth yn arloesi a datblygu cemeg gymwysedig, e.e. mewn cydweithrediad gyda chwmni Aspro Nicholas a nifer o sefydliadau oedd yn chwilio i achosion arthritis a chlefydau eraill. Hyn oll yn cydweddu â natur Prifysgol Salford yn mentro pontio rhwng academia a diwydiant biocemegol yn ffinio ar feddygaeth. O ran cyhoeddiadau, yn bapurau ymchwil, yn erthyglau mewn cylchgronau amrywiol a llyfrau bu cyfnod Salford yn ffrwythlon i'w ryfeddu.

Ym Medi 1975 ymatebodd i her hollol newydd i fod yn Bennaeth Gweithredol Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru, sefydliad a unai bedwar coleg i gynnig cyrsiau addysg bellach ac uwch, gan gynnwys gwaith ymchwil. Bu rhaid gweithio'n galed iawn i ddwyn perswâd ar nifer oedd yn betrus parthed y newydd. Ond cyfaredd a sêl Glyn a enillodd y dydd. Yn adlewyrchiad o'i brysurdeb a'i ymroddiad cymdeithasol bu Glyn a Rhiain yn deithwyr diflino, yn gosod sylfeini sefydliadau addysg ac ymchwil mewn nifer o wledydd. Mae'r rhestr hon yn arwydd o'u sêl – America, Rwsia, Nigeria, Periw, Tseina, Siapan. Ym mhlith y rhain mae enghreifftiau o'r parch tuag ato – ar ffurf enwi ambell sefydiad yn 'Glyn Phillips….'.

Ymddeolodd yn 1992 a symud i Gaerdydd, ond parhau a wnaeth y teithio a'r gofalu am ei 'deulu' o labordai a mentrau. Tros ei yrfa bu'n awdur neu gyd-awdur cannoedd o ysgrifau amrywiol, yn arbenigol at gyd-wyddonwyr ac yn gyflwyniadau i'r cyhoedd. Derbyniodd lu o anrhydeddau, nid yn lleiaf, derbynnydd cyntaf Medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Cymru am gyflwyno gwyddoniaeth yn yr iaith Gymraeg.

Wrth gyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg, rhaid sôn am sefydlu y cylchgrawn Y Gwyddonydd yn 1963. O'r cychwyn dangosodd cynnwys y cyfraniadau fod modd i'r Gymraeg fod yn gyfrwng tra effeithiol i drafod pynciau cymhleth amrywiaeth o wyddorau, heb 'ddallu' darllenwyr gyda therminoleg astrus a diangen. Gwarth o beth yw bod Gwasg Prifysgol Cymru wedi gorffen ei chyhoeddi yn 1993. Diolch yn fawr i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am gyhoeddi cyfrol yn 2013 i nodi hanner can mlynedd ers y gyfrol gyntaf. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain, cafodd Glyn gefnogaeth frwd a gallu uchel ei fwrdd golygyddol a synnwn i ddim nad oedd Rhiain yn y cefndir hefyd.

Yma yng Nghymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd bydd teimladau atgofus garw o'i golli. Er ei deithiau a'i brysurdeb daliodd Glyn yn gefnogol iawn. Ef a draddododd y Ddarlith Agoriadol ar y 18 Mawrth 1971. Testun ei gyflwyniad oedd, 'Datblygu Cyrsiau Gwyddonol ym Mhrifysgolion Affrica', hyn yn adlewychu'r ffaith ei fod ar y pryd yn Is-Ganghellor Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Benin, Nigeria. Bydd llawer ohonom yn cofio darlith arall ganddo (18 Ionawr 1999) ar y testun, Troi y Marw yn Fyw, gyda sleidiau oedd yn codi braw ac yn ennyn edmygedd.

Amhosibl yw cloriannu bywyd a gwaith Glyn mewn ychydig eiriau, ond mae'r deyrnged hon er yn dweud ychydig yn awgrymu llawer mwy.

*Dr Neville Evans*

# Siôn Eirian
# 1954 - 2020



Deuthum i adnabod Siôn pan ymunais ag adran ddrama BBC Cymru yn y 1980au cynnar, ynghyd â'i chriw o ddramodwyr megis Gwenlyn Parry, Michael Povey, Dewi Wyn Williams a'r dihafal ddramodydd-olygydd William Jones (Wil Sir Fôn). Drws nesa, yn yr adran adloniant ysgafn, byddai dramodydd arall, Rhydderch Jones, yn cydweithio'n gyson â ninnau ym maes y ddrama.

Roedd Siôn eisoes yn Brifardd, gan iddo ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1978, ac yntau ond yn 24 oed. Prif bwnc ei gerddi arobryn oedd profiadau glaslencyndod y 1960au. Mewn arddull nodedig ei huniongyrchedd gonest, delia'r gwaith â phroblemau hunaniaeth Gymreig, cysylltiadau rhywiol, ynghyd â heddwch byd eang mewn oes niwclear.

Roeddwn i ers blynyddoedd wedi dod i adnabod rhieni Siôn, Jennie ac Eirian, y ddau, yn eu ffyrdd gwahanol yn arweinwyr gwleidyddol a diwylliannol cenedlaethol. Jennie, fel ymgeisydd ifanc radical ar ran Plaid Cymru, a arloesodd y ffordd ar gyfer buddugoliaeth Gwynfor Evans yn 1966. Yn ddiweddarach, hi oedd golygydd Y Faner, gan ysgogi ei darllenwyr i ystyried dadeni'r Gymru a chwiliai am hunan hyder cenedlaethol o'r newydd. Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd Eirian, un a arloesai drwy gyfrwng ei farddoniaeth athronyddol, gellweirus, gan feithrin y math ar fohemiaeth a heriai ffordd draddodiadol teulu'r mans o fyw ac o feddwl.

Etifeddodd Siôn radicaliaeth ei rieni. Datblygodd honno yn wrthryfelgarwch, a nodweddai ei waith fel bardd, nofelydd a dramodydd. Yng ngherddi'r Goron fe'i geilw ei hunan yn 'hwrdd ifanc / yn topi celfi ei amgylchedd / gan gicio gwreichion o'r pridd / wrth chwilio am fwlch yn y clawdd'. Daeth ei safiad gwrthsefydliadol yn un o brif nodweddion ei waddol dramayddol trasicomig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

I hwyluso trefnu golygfa ysblennydd seremoni'r coroni rhaid i'r bardd arobryn gael gwybod ymlaen llaw, er mwyn sicrhau ei bresenoldeb, ar yr amod y cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol tan y seremoni. Yn achos Siôn, Gwyndaf, Curadur yr Orsedd, oedd wedi'i benodi i gyfleu'r neges. (Felly, roedd Gwyndaf, enillydd ieuengaf Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ei dynghedu i gwrdd ag enillydd ieuengaf y Goron – golygfa a fyddai wrth ddant dramodydd!)

Dull dewisedig Gwyndaf oedd cynllwynio ymweliad dirybudd, llechwraidd â'r bardd. Ddeufis cyn Eisteddfod Caerdydd, 1978, ar fore Sul, marce wyth o'r gloch, yn ei siwt orau gapelyddol, o dan ei hat Anthony-Edenaidd, canodd Gwyndaf gloch drws 42 Stryd Oakfield, y Rhath, Caerdydd.

Brawychwyd Siôn ac Erica, a oedd, yn ôl eu harfer ar fore Sul, yn hwyr yn codi. Crafangodd Siôn yn sydyn yn ei ŵn-wisgo a rhuthro lawr stâr. Gan dynnu cantel ei hat iseled â phosib wrth geisio ei wneud ei hunan yn anweledig yng ngwacter cysglyd Stryd Oakfield, gofynnodd y Curadur trwsiadus i'r Siôn syfrdan am air cyfrinachol. Fe'i harweiniwyd lan stâr nes cyrraedd ystafell a gynhwysai soffa foethus, ac amrywiaeth o gadeiriau esmwyth.

(Fel y datblygodd fy nghyfeillgarwch â hwy dros y blynyddoedd, manteisiwn droeon ar letygarwch hael Siôn ac Erica yn yr ystafell honno. Yn ystod fy ymweliad cyntaf fe'm rhybuddiwyd i osgoi eistedd mewn un gadair gan ei bod hi, rywdro, wedi ildio dan bwysau rhyw ŵr bonheddig trymach na'r cyffredin).

Er ei fod yn dal yn gynhyrflyd ym mhresenoldeb un o swyddogion parchusaf Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, roedd hi'n rhyddhad i Siôn glywed Gwyndaf yn dweud y byddai cwpaned o de yn hynod dderbyniol. Ond, cyn gynted ag y diflannodd Siôn i'r gegin i ferwi'r tecil, clywodd sŵn cwymp trwm fel trawiad taran, ac wedi rhuthro nôl i'r stafell, y ddrama a welai oedd Gwyndaf, druan, ar wastad ei gefn a'i esgidiau Saboth yn ffusto'n wyllt yn yr awyr. Yn ffodus, ni esgorodd y ddamwain ar unrhyw anaf, ac wedi cynnig a derbyn ymddiheuriadau, ac adfer trefn ac urddas, roedd hi'n bosibl i'r negesydd gyhoeddi'r newyddion da.

Rhydd y stori hon y metaffor perffaith i ddarlunio perthynas Siôn â'r sefydliad cymdeithasol a gwleidyddol fel ei gilydd. O ddechrau'i yrfa greadigol yr oedd yn ddrylliwr delwau. Bu'r cyfrifoldeb hwnnw wastad yn her i'r artist creadigol. Derbyniodd Siôn yr her honno'n frwd ac yn ddewr.

Gwerthfawrogaf y cyfle i dalu'r deyrnged hon, er mwyn cydymdeimlo ag Erica, ei ffrind anwylaf, ac â'i frawd teyrngar, Guto.

Mawrygais gyfeillgarwch Siôn a minnau. Edmygaf ei athrylith.

Ni all angau ddistrywio diymwadrwydd ei ddrama.

Taran ei theatr ni thewir; a mellt
fflam ei wên, ni rewir;
y mae gwneud a gweud y gwir
mwy'n ddrama na ddirymir.

*Jim Parc Nest*

## Llwyn Mallt a'r Dolydd Gogleddol

Bu cryn ymgyrchu'n ddiweddar ynghylch y cynllun i godi ysbyty newydd ar diroedd i'r gogledd o'r Eglwys Newydd. Bathwyd yr enw 'Northern Meadows' i ddisgrifio'r llecyn a'i gyfieithu wedyn i'r 'Dolydd Gogleddol' yn Gymraeg. Ond yn wreiddiol roedd rhan helaeth o'r tir dan sylw yn perthyn i fferm o'r enw Llwyn Mallt. Erbyn heddiw, mae'r ffermdy hwn – a thyddyn Pwllhelyg hefyd – wedi diflannu o dan gylchfan Coryton. Da gweld bod enwau'r ddau dŷ wedi eu cadw ar enwau strydoedd yr ochr draw i'r cylchfan.

I'r sawl sydd am wybod rhagor am hanes yr ardal hon, cyfrol Edgar L. Chappell (1879–1949), *Old Whitchurch: The Story of a Glamorgan Parish* (1945), yw'r man cychwyn. Ac yntau'n Gymro Cymraeg o Ystalyfera, roedd gan Chappell gryn ddiddordeb yn y dafodiaith leol ac yn arbennig mewn enwau lleoedd a da o beth yw bod ei enw yntau wedi ei goffáu yn Heol Chappell oddi ar Velindre Road.

Aeth Chappell ar drywydd Llwyn Mallt a chael ei bod yn ymddangos yn nogfennau ystâd Castell Ffwl-y-mwn cyn gynhared â 1652. Gwyddai Chappell hefyd am hanes rhyw ysbryd neu ddrychiolaeth o'r enw Mallt y Nos. Roedd hon i'w gweld, yn ôl y sôn, yng nghwmni Cŵn Annwfn yn y Fforest Fawr ger Castell Coch. Credid mai arglwyddes Normanaidd oedd Mallt. Melltithiwyd ei henaid am iddi ddweud y byddai'n hapus i fynd i uffern pe na bai modd iddi hela â chŵn yn y nefoedd. Wrth gyfeirio at Lwyn Mallt dywedodd Chappell, 'I have heard it suggested that some credulous people believed that this homestead derived its name from the Norman lady'.

Yn y ddogfen sy'n enwi Llwyn Mallt yn 1652 (ac sydd bellach ar gael yn Archifdy Morgannwg) mae cyfeiriad at ddarn o dir o'r enw 'Kae John Kett'. Ni allai Chappell ei leoli'n fanwl, ond o droi at Fap Degwm y plwyf (a luniwyd yn 1840 ac y gellir ei weld ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: https://lleoedd.llyfrgell.cymru) gwelir bod 'Cae Sion Kent', yn rhan o dir Llwyn Mallt. Mae'r cae hwn (a'r un nesaf ato, sef 'Cae Pwl[l] y Wrach') erbyn hyn yn rhan o'r Dolydd Gogleddol. Rhaid, felly, mai'r un yw 'Kae John Kett' a 'Cae Sion Cent'. Ond tybed ar ôl pwy'n union yr enwyd y cae? O ystyried yr ail enw, mae posibilrwydd fod enw'r cae yn coffáu ffigwr tra arwyddocaol yn hanes Cymru. Cysylltir yr enw Siôn Cent gan amlaf â bardd crefyddol a oedd yn weithgar ar ddechrau'r bymthegfed ganrif ac a ganodd gywydd cofiadwy i ganmol Brycheiniog.



Ond yn llên gwerin de Cymru a'r Gororau, mae Siôn Cent hefyd yn enw ar ffigwr chwedlonol o feiddgar a chwim ei feddwl a oedd â'r gallu i dwyllo neb llai na'r Gŵr Drwg ei hun. Yn ôl un stori, roedd Siôn yn was ar fferm Pontygwindy ger Caerffili (o fewn pellter cerdded i Lwyn Mallt bryd hynny). Daeth y Diafol ato a chynnig aredig y tir ar ei ran, ar yr amod y byddai'n cael rhan o'r cnwd yn dâl am ei waith. Cytunodd Siôn yn llawen, a thrannoeth yr oedd y tir wedi ei droi'n gywrain ac yn barod i'w blannu. Wedi peth amser, daeth y Diafol yn ei ôl a gofyn am ei ran o'r cnwd. Y cwbl yr oedd yn gofyn amdano, meddai, oedd yr hyn a oedd yn tyfu allan o'r pridd. I'r dim, meddai Siôn. Aeth y ddau at y cae, a gwelodd y Diafol fod Siôn wedi plannu tatws. Bu'n rhaid iddo adael heb ddim ond y gwlydd – y deiliach diwerth. Flwyddyn yn ddiweddarach fe ddychwelodd y Diafol a tharo'r un fargen, ond y tro hwn fe fynnodd gael popeth a dyfai yn y pridd. Pan ddaeth hi'n amser casglu'r cnwd, gwelodd y Diafol fod Siôn wedi plannu gwenith, a'r cyfan a gafodd oedd y gwreiddiau.

A oes cyswllt felly rhwng Cae Siôn Cent a'r stori hon? Wn i ddim – efallai y gallai ymchwil bellach daflu goleuni newydd ar y pwnc. Ond rhwng Llwyn Mallt a Chae Siôn Cent, mae'r rhan fach hon o'r Dolydd Gogleddol yn brawf o ba mor gyfoethog y gall ein traddodiadau lleol fod.

*Dylan Foster Evans*

## Gweithgareddau Gwyliau Haf Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg

menter caerdydd

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Er i'r cyfnod clo fod yn un prysur i'r Mentrau hyd yn hyn, gyda llu o weithgareddau ar-lein a Tafwyl rhithiol hynod lwyddianus ymhlith arlwy'r misoedd diwethaf, does dim bwriad ganddom i gamu'n ôl dros wyliau'r Haf! Yn hytrach, mi fyddwn yn darparu gwledd ddigidol o weithdai diddorol, cyffrous a rhad ac am ddim ar gyfer rhai o bob oedran.

Bydd sesiynau 'Siop Siarad' rheolaidd i gadw'r plantos yn sgwrsio yn y Gymraeg dros y gwyliau, ynghyd â sesiynau hwyl rhyngweithiol i rai ifanc, megis darllediad byw gemau cyfrifiadur YnChwarae (10 Awst), gweithdai drama gyda'r Theatr Genedlaethol (4, 11 a 18 Awst), arlunio gydag Efa Lois (11 Awst), gwersi dawns gyda Rubicon (17 a 24 Awst) a llu o weithgareddau eraill!

Mae digon i gadw'r oedolion wedi'u diddanu hefyd, gyda gweithdy Gofal Beic i'r rhai ohonoch sy'n hoff o deithio'r ddinas ar ddwy olwyn (4 Awst), gweithdy Bwydo Rhai Bach i rieni newydd (6 Awst), sesiwn ffotograffiaeth ffôn gyda Kristina Banholzer (18 Awst), gweithdai blasu gwin gyda Vin Van (i'w gadarnhau), pobi gyda Beca Lyne-Pirkis (i'w gadarnhau) a llawer, llawer mwy!

Dim ond blas yw hyn o beth fydd ar gael, felly cofiwch gadw llygaid allan ar ein cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan am fanylion pellach ar sut i archebu'ch lle ac am amserlen lawn, gyfredol. Gobeithiwn eich gweld yn un o'r gweithdai yn fuan!

# Addoli yn y Cyfnod Clo



*Beti-Wyn James*

Ganol Gorffennaf, penderfynodd Cristnogaeth 21 gynnal Sesiwn Zoom ar y pwnc ‘Addoli yn y Cyfnod Clo’, a chalonogol iawn oedd gweld cynifer o bobl o bob cwr o Gymru yn ymuno i glywed tri chyfrannwr yn rhannu profiadau wrth geisio ymdopi mewn gwahanol ffyrdd â’r cyfyngiadau a fu mewn grym ers canol mis Mawrth.

Dewis cynnal oedfaon byrion yn fyw ar Zoom a wnaeth y Parchedig Evan Morgan yn Salem, Treganna, a hynny’n denu cannoedd i’r gynulleidfa wythnosol. Cawsom ninnau gyfle i fwynhau cyflwyniad cyfoethog a hwyliog ganddo wrth iddo bwyso a mesur gwerth gwasanaeth o’r fath, a rhannu ambell i gyfrinach. Arweiniodd hynny ef i ystyried pa fath newid a welwyd yn natur yr eglwys Gristnogol yn sgil y dyfeisgarwch digidol newydd, a diddorol oedd ei glywed yn awgrymu y byddai’r defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol yn parhau ochr yn ochr â’r presenoldeb mewn adeilad wedi i bethau ddod yn ôl i’r drefn arferol.

Troi at Facebook wnaeth y Parchedig Beti-Wyn James, Y Priordy, Caerfyrddin gan ddarlledu’n fyw yn y lle cyntaf, a gadael recordiad ar y wefan wedyn er mwyn i eraill gael ymuno pryd bynnag y mynnent. Ac wrth ddarllen y negeseuon a adawyd ar y wefan yn ymateb i’r arlwy, mae’n amlwg fod ganddi ddilynwyr ledled gwledydd Prydain a thramor hyd yn oed, a’r rheiny’n filoedd ar filoedd o ran niferoedd. Fe welwyd yr oedfa gymun ddechrau Gorffennaf dros bum mil o weithiau.

Yn wahanol i Evan Morgan a Beti-Wyn James, hwyluso’r broses o ddarlledu ar gyfer pobl eraill y bydd Rhodri Darcy, fel Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu i Undeb yr Annibynwyr. Fel un sydd â phrofiad helaeth yn y byd darlledu, mae’n hyddysg yn y dechnoleg amgen, ac yn cynnig pob cymorth i weinidogion a lleygwyr gynnal eu hoedfaon. Cawsom weld enghreifftiau o’r gwasanaethau sy’n denu miloedd o wylwyr ar wahanol lwyfannau.

Mae’r un math o addasu ac arbrofi, o wreiddioldeb a dyfeisgarwch wedi bod yn amlwg ledled Cymru gan yr enwadau i gyd, a’r hyn a ddaeth yn amlwg yn y Sesiwn Zoom hon oedd yr optimistiaeth ymhlith yr eglwysi a orfodwyd i feddwl yn gyflym am ffyrdd newydd o addoli a chynnal eu haelodau. Wrth wynebau heriau nas dychmygwyd eu tebyg erioed o’r blaen, dangoswyd bod yna barodrwydd i newid a bod yn berthnasol waeth beth fo’r rhwystrau.

Medrwch ddarllen rhagor am Cristnogaeth 21 ar ein gwefan www.cristnogaeth21.cymru ac ar ein tudalen Facebook. Rydym yn anfon neges wythnosol ar ffurf ‘Munud i Feddwl’ i’n dilynwyr bod wythnos, ac mae croeso i chi ei dderbyn drwy anfon gair at cristnogaeth21@gmail.com

*Emlyn Davies*

# Diweddglo Cyffrous i Dymor Dinas Caerdydd

Am ddiweddglo i’r tymor!

Maen nhw’n dweud nad yw rheolwyr a chwaraewyr pêl-droed ond cystal â’u gêm olaf.

Dyn ni newydd golli i Fulham. Ond chwarae teg, enillon ni ar y noson - Fulham 1 Caerdydd 2.

Rhaid dweud bod tîm pêl-doed Caerdydd wedi gwneud lot yn well na’r disgwyl eleni. Ond, na, dwi ddim yn hapus. Yng nhymal cyntaf y gemau ail-gyfle, yn erbyn Fulham, anffawd oedd gadael gôl i mewn yn y funud olaf. Anffawd arall oedd yr anaf i Lee Tomlin ychydig o funudau ar ôl iddo sgorio yn yr ail gymal.

Rydym wedi chwarae pêl-droed, hynny yw symud y bêl a phasio a chadw’r bêl a chael ystadegau meddiant o’n plaid ni am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Wedi gweld amddiffynnwr canol cae Brentford yn gwneud smonach o bethau yn erbyn Abertawe ron i’n gallu deall pam fod Neil Warnock mor bendant ynglŷn â phenio a chicio’r bêl yn hytrach na chwarae gyda hi.

Pwy fasai wedi dychmygu bod Neil Harris mor dda? Pwy fasai’n meddwl bod Bacuna yn foi deallus, talentog sy’n gallu chwarae pêl-droed? Mae goliau yn newid popeth wrth gwrs ac mewn gwirionedd collon ni ar ôl i Fulham ddod yn gyfartal yn syth bin ar ôl i ni sgorio yn Llundain yn yr ail gymal. Basai hyd yn oed 5 munud wedi gwneud gwahaniaeth ar ôl i ni sgorio ond mae pawb yn gwybod bod peryg yn syth ar ôl sgorio.

Rhaid i mi ganmol a rhoi hysbys i CardiffCityTV. Wow. Am wybodaeth am dîm Caerdydd, a thactegau a dealltwriaeth o systemau ac ati. Wnes i fwynhau yn fawr. Wedi dweud hynny, mae radio yn gyflymach ac mae’n annifyr gweld goliau ar Sky cyn iddyn nhw fynd mewn ‘yn fyw’ ar CardiffCityTV.

Ai Brentford neu Fulham fydd yn aros yn y Bencampwriaeth? OMB! Dewch ymlaen! Mae Caerdydd, a hyd yn oed Abertawe, llawn cystal! Dwi’n falch o weld ambell i glwb bach yn dod i lawr atom i’r Bencampwriaeth; mae eisiau i sawl clwb bach arall ddod lawr hefyd. Dwi’n falch i mi gredu bod gobaith hyd at 90 munud olaf y gêm olaf. Collwr gwael fues i erioed. Fel mae Neil Harris wedi dweud, dych chi’n gorffen lle dych chi haeddu gorffen. Da iawn bawb. Gwnes i fwynhau...er i ni golli.

Dyrchafiad tymor nesaf? Gobeithio’n wir!

*Steffan Webb*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

**Yr Athro E. Wyn James**



## Tomos o'r Dyffryn a Bethesda'r Fro, a'i gymydog, Iolo

Y tro diwethaf yn y golofn hon, bûm yn trafod rhywfaint ar y rhyfeddod hwnnw, Edward Williams (1747–1826) – neu Iolo Morganwg, a rhoi iddo ei enw barddol mwy cyfarwydd – a bwriadaf ddychwelyd ato ef a'i farddoniaeth eto maes o law; ond y tro hwn rwyf am droi at un a fu'n gymydog i Iolo – er nad yn gyfaill iddo! – sef Thomas William (1761–1844), Bethesda'r Fro. Thomas **William**, sylwer, nid Thomas **Williams**, oherwydd fe fynnai na ddylid rhoi'r llythyren 's' ar ddiwedd ei gyfenw ar unrhyw gyfrif, fel y gwelwn o'r triban hwn a luniodd un tro, yn mynegi ei rwystredigaeth fod argraffydd wedi mynd ati i ychwanegu'r 's':

> Fe wetas wrtho m' hunan
> Mai f'enw oedd Tomos William;
> Ond er y cwbwl oll a wnes,
> Fe ddododd e'r *s* fongam.

(Ffurf dafodieithol ar 'dywedais' yw'r 'wetas' yn y llinell gyntaf.)

Rhaid bod Bro Morgannwg yn lle hynod ddifyr i fyw ynddo yn y 18fed ganrif, a barnu oddi wrth ddisgrifiad yr Athro Griffith John Williams o'r Fro yn y bennod gampus, 'Morgannwg', sy'n agor ei lyfr *Iolo Morganwg: Y Gyfrol Gyntaf* (1956) ac sy'n gosod y llwyfan ar gyfer bywyd a gwaith Iolo. Roedd yn 'fro rhwng môr a mynydd' (chwedl R. Williams Parry am Eifionydd), ond yn yr achos hwn yn Fro rhwng Môr Hafren a rhostiroedd mynyddig Blaenau Morgannwg. Roedd yn wlad ffrwythlon, yn wlad (meddai G. J. Williams) 'o gilfachau hyfryd […] gyda'i phentrefydd bychain yn llathru yma a thraw'. Dywed G. J. Williams mai un o brif nodweddion pentrefi'r Fro yn ôl Iolo Morganwg 'ydoedd tai cymen, gerddi a pherllannau, a muriau gwynion yn llathru yn yr haul'. Honnai Iolo y byddai pobl y Fro yn gwyngalchu eu ffermdai a'u bythynnod to-gwellt o leiaf unwaith yn y flwyddyn, ar y tu mewn yn ogystal ag ar y tu allan, a'i bod yn ddywediad ymhlith Cymry'r 18fed ganrif 'fod pobl Morgannwg yn gofalu am eu tai, pobl Sir Gaerfyrddin am eu boliau, a phobl Ceredigion am eu heneidiau'.

Roedd y Fro yn wlad fyrlymus ei diwylliant gwerin, a'r tyrfaoedd yn tynnu ynghyd i wyliau o bob math, i ganu tribannau i gyfeiliant y ffidil a'r delyn, i ddawnsio, ac i wylio gornestau megis bando (math o hoci cyntefig) ac ymladd ceiliogod. Roedd hi hefyd yn wlad dysg. Er enghraifft, bu dau o brif eiriadurwyr y 18fed ganrif yn byw yn ymyl ei gilydd ym Mro Morgannwg, sef Thomas Richards yn Llangrallo (*Coychurch*) rhwng 1742 ac 1790, a John Walters yn Llandoche'r Bont-faen o 1759 hyd 1797; ac yn y Bont-faen y sefydlwyd y wasg argraffu gyntaf ym Morgannwg, tua dechrau 1770.

Mewn gwirionedd, gellid dweud am bobl Bro Morgannwg, fel y dywedodd Iolo am bobl Ceredigion, fod ganddynt ofal am eu heneidiau, oherwydd yr oedd y Fro yn y 18fed ganrif yn fwrlwm o weithgarwch crefyddol. Dechreuodd Methodistiaeth gydio yno yn fuan ar ôl cyffroadau cyntaf y Diwygiad Efengylaidd yn yr 1730au, a chyn hir roedd rhwydwaith o seiadau Methodistaidd wedi ymffurfio ar hyd a lled Bro Morgannwg. Gwelwyd arweinwyr amlwg y mudiad Methodistaidd Cymreig, pobl fel Howel Harris a Williams Pantycelyn, yn ymweld â'r Fro o gyfnod cynnar yn hanes y Diwygiad, a byddai arweinydd mawr y Methodistiaid Seisnig, John Wesley, a'i frawd Charles, yr emynydd, yn dod yno ar dro hefyd, ac yn cael croeso mawr ym Mhlas Ffwl-y-mwn ym mhlwyf Pen-marc (nid nepell o'r maes awyr presennol yn y Rhws); a diddorol yw gweld bod emyn-dôn mewn casgliad a gyhoeddodd John Wesley yn 1742 yn dwyn yr enw 'Fonmon Tune', ar ôl Plas Ffwl-y-mwn, a bod un arall â'r enw 'Penmark Tune'.

Ond daeth y trobwynt mawr yn hanes Methodistiaeth yn y Fro pan benodwyd y pregethwr efengylaidd grymus, Dafydd Jones, yn offeiriad Llan-gan yn 1767. Byddai torfeydd yn tyrru yno o bell ac agos i wrando arno'n pregethu, yn union fel y byddai pobl yn yr un cyfnod yn heidio wrth y cannoedd a'r miloedd i wrando ar y pregethwr Methodist grymus arall hwnnw, Daniel Rowland, ym mhentref Llangeitho ger Tregaron. Ac mae'n werth pwysleisio mai yn y Gymraeg, yn bennaf, yr oedd y gweithgarwch Methodistaidd hwnnw ym Mro Morgannwg, oherwydd peth arall y gellid ei ddweud am y Fro yn y cyfnod dan sylw oedd ei bod hi'n ardal Gymraeg i raddau helaeth.

Oherwydd ei safle daearyddol, bu Bro Morgannwg yn agored iawn i ddylanwadau a goresgyniadau o bob math ar hyd y canrifoedd, a gwelwyd yno adegau o drai sylweddol ar y Gymraeg yn sgil hynny; ond cyfnod o benllanw mawr oedd hi ar y Gymraeg yn y Fro yn niwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, ac un o'r prif resymau am hynny oedd twf Methodistiaeth yno, am mai'r Gymraeg oedd prif gyfrwng eu haddoli, eu pregethu a'u seiadu. Mae'n werth ychwanegu fod ysgolion cylchynol Griffith Jones, Llanddowror, a oedd mewn rhai ffyrdd yn rhan o'r un symudiad â Methodistiaeth, hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at dwf y Gymraeg ym Mro Morgannwg yn y 18fed ganrif.

Daeth Thomas William o dan ddylanwad Methodistiaeth yn gynnar yn ei fywyd. Un o deulu o amaethwyr o blwyf Pendeulwyn (*Pendoylan*) yng ngogledd y Fro ydoedd. Fe'i ganed yno, yn Nhreredyn, ddydd Gŵyl Ddewi 1761, a daethpwyd i'w adnabod fel 'Tomos o'r Dyffryn' wedi i'r teulu symud i fferm y Dyffryn Bach. Yn ddeng mlwydd oed daeth yn aelod o seiat y Methodistiaid yn Nhre-hyl, tua dwy filltir o'i

gartref, ac roedd yn un o'r rhai a gyrchai'n gyson i Langan i eistedd o dan bregethu Dafydd Jones. 'Dyddiau hyfryd oedd y rheini', meddai yn ei farwnad i Dafydd Jones, a'r 'dorf mewn twym serchiadau' wrth wrando ar Dafydd Jones yn 'utganu', a Thomas yntau'n chwerthin o lawenydd 'tra'n ymborthi ar y llaeth' (sef 'llaeth y Gair', y Beibl, adlais o 1 Pedr 2:2).

Yn 1790 priododd Thomas William â Jane Morgan o Eglwys Brewys a symud i dde'r Fro, i fferm Ffwl-y-mwn, gerllaw'r Plas – lle cyfarwydd iawn i Iolo Morganwg yntau, am y byddai Iolo a'i dad a'i frodyr yn gweithio'n aml fel seiri ar ystad Ffwl-y-mwn. Ar ôl symud, ymunodd Thomas William â'r Methodistiaid a oedd yn cyfarfod yn Aberthin, gerllaw'r Bont-faen, ond cododd tensiynau mawr yno – a Iolo Morganwg wrth ei fodd yn ceisio cynhyrfu'r dyfroedd rhwng y seiadwyr a'i gilydd! – a'r diwedd fu i Thomas William a rhai eraill adael Aberthin a sefydlu eu hachos annibynnol eu hunain. Codwyd capel ar gyfer yr achos yn 1806/7 ar gyrion gorllewinol safle presennol maes awyr Sain Tathan, a'i alw'n Fethesda, a bu Thomas William yn weinidog yr achos ym Methesda'r Fro am flynyddoedd lawer.

Ychydig cyn codi tŷ cwrdd Bethesda, symudodd Thomas William a'i deulu i ffermio yn Nhrefflemin a dod trwy hynny'n gymydog agos i Iolo Morganwg. Un digon cecrus oedd Iolo wrth natur, ac roedd yn casáu Methodistiaeth â chas perffaith. Nid yw'n syndod deall, felly, nad oedd yn rhyw hoff iawn o Thomas William, ac yn dweud pethau digon maleisus amdano. Ond ymddengys mai troi'r rudd arall a wnâi Thomas William, oherwydd gwelwn Iolo'r saer maen yn cael ei gyflogi i weithio ar garreg fedd teulu Thomas ym Mhendeulwyn.

Fel Iolo, yr oedd Thomas William yntau'n fardd. Mae'n fwyaf adnabyddus fel emynydd, ac mae rhai o'i emynau yn cael eu canu hyd heddiw. Ei emyn mwyaf, ac un o emynau mwyaf y Gymraeg, yw 'O'th flaen, O! Dduw, rwy'n dyfod', y lluniodd Morfydd Llwyn Owen o Drefforest gerddoriaeth mor wefreiddiol ar ei gyfer yn ei champwaith 'Gweddi y Pechadur' (1913). Cyfansoddodd Thomas William dros 150 o emynau i gyd. Mae'n emynydd crefftus a soniarus sy'n hoff o gynnal delweddau estynedig yn ei waith. Mae nifer o'i emynau'n canolbwyntio ar un darn o'r Beibl, fel yn achos 'O'th flaen, O! Dduw, rwy'n dyfod', sy'n dramateiddio hanesyn yn Efengyl Luc, pennod 18, neu ei emyn 'Y Gŵr ar ffynnon Jacob', a ddaeth yn hynod boblogaidd adeg Diwygiad 1904/5, sy'n tynnu ar hanes cyfarfyddiad Crist â'r wraig o Samaria yn Efengyl Ioan, pennod 4. Ac mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod llawer o'i emynau wedi eu llunio, mae'n debyg, ar gyfer eu canu ar ddiwedd pregeth ganddo ym Methesda'r Fro.

Emynydd 'cwynfannus' yw disgrifiad W. J. Gruffydd ohono. Roedd Thomas William yn gymeriad a dueddai wrth natur at fod yn bruddglwyfus, ac yn wir roedd sawl peth y gallai fod yn gwynfannus yn eu cylch – o ran ei iechyd, er enghraifft. Ond nid yw'r disgrifiad hwnnw'n gwneud cyfiawnder ag ef fel emynydd nac fel Cristion, oherwydd er y gall ei emynau ddechrau yn y lleddf, fe red drwyddynt yr un pryd ryw hyder tawel fod ganddo Feddyg nefol, fel y gwelwn yn y gân serch hyfryd hon ganddo i Grist, cerdd sy'n haeddu bod yn fwy cyfarwydd nag y mae:

Mor hirion yw'r oriau o hyd
    Pan, Iesu, o'm golwg b'ost ti;
Gwrthrychau hyfrytaf y byd
    Nid ydynt yn hyfryd i mi;
Mae hafddydd yn aeaf di-hedd
    O alar, a thrymder, a thrai,
Ond pan caffwyf weled dy wedd
    Mae Rhagfyr mor hyfryd â Mai.

## Profiad Matt Spry o siarad ar raglen Beti a'i Phobl, Radio Cymru

Crachach go iawn ydw i y dyddiau hyn – aelod o'r Orsedd, byw ym Mhontcanna (ond rhentu cofiwch!) a nawr dw i wedi cael fy nghyfweld ar gyfer y rhaglen radio *Beti a'i Phobl*! Dw i'n jocan wrth gwrs ond braint oedd cael fy ngofyn i ymddangos ar raglen radio mor adnabyddus ac mor uchel ei pharch, yn enwedig o wybod pwy arall sydd wedi ymddangos arni hi. Dw i ddim yn yr un cae â nhw.

Ces i neges gan gynhyrchydd Radio Cymru ym mis Mawrth i ofyn os oedd diddordeb gen i ac wedi cwpl o alwadau ffôn ac e-bost trefnwyd i wneud y cyfweliad tua chanol y mis. Ond roedd rhaid ystyried cyfyngiadau y cyfnod clo. Fel arfer mae gwesteion Beti George yn mynd i'r stiwdio i wneud y cyfweliad – naill ai wyneb yn wyneb yn y stiwdio yng Nghaerdydd neu o stiwdio arall. Doedd hyn ddim yn bosib oherwydd y coronafirws felly gwnaethon ni'r cyfan drwy alwad Skype.

Tua wythnos cyn y cyfweliad cysylltodd technegwr Radio Cymru â fi er mwyn sicrhau y bydd popeth yn iawn o ran defnyddio Skype yn y fath fodd, er mwyn sicrhau y gallan nhw recordio'r cyfweliad. Rhediad prawf fel petai. Aeth popeth yn iawn ac roedden ni'n barod ar gyfer y recordio.

Dau ddiwrnod cyn y recordio ffoniodd Beti fi i gael sgwrs a thrafod y cwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn – rhediad prawf arall fel petai! Daeth y diwrnod mawr ac roedden ni'n sgwrsio drwy Skype am tua awr a hanner o leiaf. Roedd Beti yn ei thŷ hi, roeddwn innau yn fy nhŷ ac roedd Radio Cymru yn recordio'r holl sgwrs. Roedd yn brofiad gwych. Roeddwn i'n teimlo'n reit nerfus cyn i ni ddechrau ond chwarae teg i Beti – gwnaeth hi'r profiad i fod yn un hamddenol ac yn bleserus gan arwain at sgwrsio hawdd. Bu ond y dim i fi anghofio bod rhwyun arall yn gwrando arnon ni ac yn recordio popeth!

Cafodd y rhaglen ei darlledu ddydd Sul, 17 Mai a'i hail-ddarlledu ddydd Iau, 21 Mai a ches i adborth gwych oddi wrth lawer o bobl. Dyw fy rhieni, sy'n byw yn Aberplym (Plymouth) yn Lloegr ddim yn siarad Cymraeg o gwbl ond gwrandawon nhw ar yr holl raglen! Ond dw i heb wrando arni fy hun hyd heddiw – dw i'n casáu clywed fy llais fy hun.

Dw i heb sôn am gynnwys y cyfweliad. Bydd rhaid i chi wrando arno fe! Roedd rhaid i fi ddewis pedair cân ar gyfer y rhaglen hefyd a rhoi esboniad am fy newis, ond bydd rhaid i chi wrando arni hi i ddarganfod pa ganeuon a ddewisais i!

# Cwmni'r Dysgwyr

*"mae nifer fawr ohonom wedi gorfod dysgu am Zoom a Teams yn ddiweddar"*

**Gwilym Dafydd**



**Profiad Tiwtor Cymraeg i Oedolion yn ystod y cyfnod clo - Janet Wilde**



Mae'n anodd credu sut mae fy ngwaith fel tiwtor Cymraeg i Oedolion wedi newid yn ystod y pedwar mis diwetha. Ar ddechrau mis Mawrth roedd enwau fel Zoom, Collaborate a Microsoft Teams yn hollol ddieithr i mi ond bellach dw i'n gyfarwydd iawn â nhw i gyd, ond nid yn arbenigwraig o bell ffordd.

Yn ôl ym mis Mawrth, Zoom oedd y platfform o ddewis i gyflwyno gwersi ym Mhrifysgol De Cymru ac roedd rhaid dysgu'n gyflym iawn felly es i at YouTube i ddysgu sut i rannu ffeiliau, chwarae fideos a chreu ystafelloedd torri allan *(breakout rooms).* Dyma fi'n teimlo'n fwy hyderus ac yn hapus bod y dysgwyr yn elwa o'u gwersi ar lein. Yn anffodus, roedd pryderon am ddiogelwch Zoom felly roedd rhaid defnyddio platfformiau eraill i gyflwyno'r gwersi.

Wrth gwrs, roedd rhaid i fi a rhai o'r dysgwyr uwchraddio ein sgiliau TG yn gyflym iawn ac i rai mae'r cyfnod wedi bod yn heriol iawn o ran technoleg. Weithiau mae'r cysylltiadau band eang wedi creu problemau a dw i wedi cael sawl gwers lle mae dysgwr yn gallu ein clywed a'n gweld ond yn methu siarad â gweddill y dosbarth! Hefyd, ar ôl dros ugain mlynedd o weithio fel tiwtor does dim modd trosglwyddo'r holl adnoddau i wers rithwir ond ar y cyfan, er byddai'n well gyda fi weld fy nysgwyr wyneb yn wyneb mae'r platfformiau wedi rhoi cyfle ardderchog i ni barhau gyda'n gwaith ac mae'r dysgwyr wedi gwerthfawrogi'r strwythur o wersi wythnosol yn ystod y diwrnodau hir o gyfyngiadau symud. Roeddwn innau'n falch o'r strwythur hefyd – mae paratoi a chyflwyno gwersi yn esgus da am osgoi gwaith tŷ! Hefyd, roedd gen i ddosbarth yn Llyfrgell Pontypridd ac mae'r gwersi ar-lein wedi golygu bod y rhieni ifanc yn gallu ymuno â ni heb boeni am ofal plant a rhaid i fi gyfadde, dw i ddim yn colli'r daith lan y A470 ar nos Fawrth o gwbl!

**Gair gan Lynda Newcombe am Bob, y gath**

Ron i'n drist o glywed bod y gath fyd-enwog, Bob wedi marw ar y pymthegfed o Fehefin eleni. Bob oedd cath ffyddlon James Bowen ac fe oedd y 'person' a helpodd James newid ei fywyd. Cerddor crwydrol yn Llundain oedd James ac roedd e'n trio rhoi cyffuriau i fyny pan ddaeth e o hyd i gath dost tu allan i'w fflat. Aeth â'r gath at y milfeddyg a gofalodd amdano tan roedd e'n iach. Wedyn anfonodd e i ffwrdd ond roedd y gath wastad yn dod nôl a dechreuodd e ddilyn James a neidio ar y bws gyda fe. Enwodd e yn Bob a daeth y ddau yn adnabyddus yn Covent Garden pan roedd James yn canu. Denon nhw gryn dipyn o sylw ar ôl i fenyw garedig wau sgarff lliwgar i Bob.

Mae James yn credu bod Bob wedi'i achub e oherwydd roedd rhaid iddo fe feddwl am rywun arall. Nawr mae James yn helpu elusennau sy'n cefnogi pobl ddigartref a buddiannau anifeiliaid ac yn ysgrifennu.

Ysgrifennodd James ei hunangofiannau, *A Street Cat Named Bob, The Word According to Bob* a *A Gift from Bob* oedd yn frig-lyfrau rhyngwladol ac ar gael mewn dros ddeugain o ieithoedd. Ymddangosodd ffilm yn seiliedig ar y llyfrau yn 2016 a bydd dilyniant eleni. I ddysgu mwy ewch i'r wefan https://www.facebook.com/OfficialJamesBowenandStreetcatBob/

**Amser Jôc gyda Huw James**

Fy nghyfaill gorau yn yr ysgol oedd bachgen o'r enw Iestyn. Roedd ei dad yn y llynges ac wedi marw yn y rhyfel a chafodd ei fagu gan ei fam yn unig – yn aros am linell gymorth TalkTalk.

Pan adawodd yr ysgol roedd e am ymuno â'r llynges wrth gwrs. Ceisiodd ei fam ddwyn perswâd arno i beidio ond yn ofer. Fydda i byth yn anghofio'r dydd gadawodd e – y teulu i gyd a fi ar blatfform gorsaf Aberystwyth. Ar y funud olaf addawodd e i'w fam y basai'n anfon cerdyn post pob tro y byddai'n glanio.

Am amser hir ni ddaeth unrhyw beth ond wedyn yn y pen draw – cerdyn post – haleliwia!

*Annwyl Fam. Dw i ddim yn gallu dweud ble ydw i achos rhesymau diogelwch ond ddoe glaniais i a saethu arth wen.*

Un mis yn ddiweddarach:

*Annwyl Fam. Dw i ddim yn gallu dweud ble ydw i achos rhesymau diogelwch ond ddoe glaniais i a dawnsio gyda merch Hula Hula.*

Un mis arall:

*Annwyl Fam. Dw i ddim yn gallu dweud ble ydw i achos rhesymau diogelwch ond ddoe es i at feddyg y llong. Dwedodd e dylwn i fod wedi dawnsio gyda'r arth wen – a saethu'r ferch Hula Hula.*

# Darganfod

**Stori fer gan**

**yr awdur**

## John Emyr



*Llun: Luned Aaron*

Yn ôl ym mis Mawrth, problem pobl eraill oedd Covid-19. Ond wrth i'r si am bandemig ledaenu, o dipyn i beth daeth y perygl yn nes. A soniai'r newyddion am y coronafirws a'i anrhaith yng ngogledd yr Eidal a gwledydd eraill.

'Ro'n i'n edrych 'mlaen at ein gwyliau yn Lombardia,' oedd sylw Megan yn niwedd Chwefror.

'Mae 'na betha pwysicach na gwyliau,' oedd ymateb Osian ei gŵr.

Erbyn hyn roedd mis Awst yn agosáu, ac roedd Osian yn cychwyn ar ei dro beunyddiol.

Wrth iddo gerdded, sylwai ar y coed o'i gwmpas. Roedd y dail a'r canghennau'n cydsymud yn yr awel. Clywodd alwad hebog ac edrychodd i fyny i'w weld – a dyna fo, yn hofran yn hamddenol ac yna'n ochr hedfan yn fedrus i osgoi dwy frân oedd yn ceisio'i blagio.

Wrth sylwi ar amrywiaeth blodau gwyllt y gwrychoedd, cofiodd Osian am ei fam a oedd, drwy gydol ei bywyd, yn ei helfen yng nghwmni blodau a phlanhigion. A hyd y diwedd roedd hi'n cofio'u henwau gydag asbri yn ei hwyneb fel petai hi'n eu darganfod am y tro cyntaf. Ar sail ei phrofiad fferyllol, roedd hi'n wybodus hefyd am feddyginiaethau o bob math. Pe bai hi'n fyw o hyd, meddyliodd Osian, tybed beth fyddai ei hymateb i'r tswnami o bandemig oedd yn sgubo drwy'r byd ac nad oedd meddyginiaeth ar gael i'w orchfygu. Dim rhyfedd fod pryder ar gynnydd a gobaith yn brin.

Cerddodd yn ei flaen gan sylwi ar ddistawrwydd y wlad. Prin oedd y ceir a âi heibio, ac roedd yr awyr yn glir.

Meddyliodd am adegau eraill yn hanes y byd pryd y cafwyd heintiau difrifol. Rhyfedd meddwl bod un o ddulliau'r hen fyd o geisio ymdopi â phlâu yn debyg i un o'r dulliau cyfoes, meddyliodd, sef cadw pellter rhwng pobl. Ac ar amrantiad, wrth iddo feddwl am yr ymbellhau cymdeithasol, gwelodd un o'i gymdogion yn dynesu tuag ato. Wrth iddyn nhw yngan eu cyfarchion, gofalodd y ddau gadw digon o bellter oddi wrth ei gilydd.

Er bod cadw pellter yn beth cyfrifol mewn pandemig, meddyliodd Osian, mae'n gallu bod yn beth chwithig pan nad oes mo'i angen. Tacteg rhai o arweinwyr y gwledydd mawrion oedd gwrthod siarad â'i gilydd. 'Cynt y cyferfydd dau ddyn na dau fynydd', meddai'r ddihareb, ond doedd dim symud ar rai gwladweinwyr oedd yn gwrthod dofi eu balchder. Mor wahanol oedd pellter penstiff o'r fath i reddf ac arfer ei fam. Un a feddyliai'r gorau am bawb oedd hi, ac nid un i greu gelyniaeth ddiangen rhyngddi hi ac eraill. Calondid oedd gweld bod yr argyfwng presennol, gyda'i ysgogiad i barchu eraill a gofalu amdanyn nhw, wedi rhoi cyfle i bobl ailddarganfod rhai o'r hen werthoedd.

Yn sydyn, wrth iddo ddilyn ei lwybr ar hyd ymyl cae, sylwodd Osian ar bridd y cae hwnnw, cramen galed a fu'n llaid un tro ond a oedd erbyn hyn yn llawn craciau sych. Tybed ai fel hyn y byddai pridd y dyfodol, hyd yn oed yn yr ardal hon? Dechreuodd feddwl am raglen radio ddiweddar a drafodai farn arbenigwyr ar yr hyn sy'n digwydd i dymheredd y byd. Dadleuai cyflwynydd y rhaglen honno y byddai effeithiau cynhesu byd-eang yn waeth nag effeithiau Covid-19! Yn sgil hunanoldeb a chwant am gyfoeth, roedd pobl wedi ffynnu ar lygru'r ddaear. Go brin, felly, y byddai'r dyfodol yn fêl i gyd.

I geisio gwrthsefyll gogwydd difrifol ei fyfyrdod, ceisiodd Osian droi ei feddyliau at bethau difyrrach. Byddai cerbyd Waitrose yn dod â neges fwyd at y drws ffrynt heno. Byddai arogl y bara wedi'i bobi gartref gan Megan yn hyfryd. Byddai'r cig lleol a'r llysiau o'r ardd yn gyfuniad sawrus. Ac ar ôl te, roedd 'na raglen i'w gwylio, *Natur a Ni*, cyn y cyfarfod teuluol dros Zoom.

Erbyn hyn gallai weld tai ei stryd yn dod i'r golwg. Roedd gwaith celf y plant i'w weld ar gerrig ger y palmant yn dymuno'n dda i weithwyr y gwasanaeth iechyd ac yn atgoffa pawb i gadw'n ddiogel. Ar un ffenest gosodwyd llun enfys ynghyd â'r geiriau 'Mae gobaith yn yr enfys'. Roedd pelydrau haul yn goleuo'r llun, ond y foment honno teimlai Osian fod ei obaith yn gwegian.

Yn sydyn, canodd y ffôn bach ym mhoced ei siaced. Gwasgodd y botwm gwyrdd a daeth llais Megan i'w glyw.

'Fi sy yma. Wyt ti'n iawn?'

'Ydw. Ar fy ffordd adra.'

'Wyt ti bron â chyrraedd?'

Cyn iddo ateb, aeth ei ffôn yn farw.

Go drap, meddai wrtho'i hun, mi wnes i anghofio'i wifro'n llawn. Dechreuodd deimlo'n bryderus, ac wrth iddo frasgamu tuag at ei gartref, clywodd seiren ambiwlans a ruthrai ar hyd heol gyfagos. Ar yr un pryd sylwodd fod un o geir yr heddlu'n disgwyl ar y palmant y tu allan i dŷ un o'i gymdogion. Ar wahân i'r car hwnnw roedd y stryd yn wag. Dim pobl. Dim anifail. Dim aderyn hyd yn oed. Roedd y byd yn sefyll yn stond a'r cread yn gwrthod siarad. Pa newyddion trist oedd ar fin cael ei dorri? Pwy oedd eisoes ynghlwm wrth offer anadlu yn yr ambiwlans?

Wrth iddo gyrraedd ei gartref, dyma'r drws ffrynt yn agor a chamodd Megan allan i'w gyfarfod.

Mae'r Covid wedi taro, meddyliodd Osian; tybed ydi o wedi taro un o'n cymdogion?

'Newyddion da', meddai Megan yn gynhyrfus. 'Mae gwyddonwyr yn Rhydychen wedi darganfod brechlyn fydd yn ein hamddiffyn ni rhag y Covid.'

'Wel diolch am hynny', meddai Osian. A chofiodd am y pelydrau haul a welodd yn goleuo enfys y plant.

# Cofiwch Dryweryn - a chofiwch Langyndeyrn hefyd!

*Gwahoddwyd dau gyfraniad i gofio am frwydr – a buddugoliaeth – pobl Llangyndeyrn.*

*Dyma argraffiadau gan Rob Evans, Ysgrifennydd Cymdeithas Edward Llwyd, ac un o golofnwyr cyson y Dinesydd.*

Ar yr 22ain o Chwefror 2020 mi wnaeth Peter Evans arwain taith Cymdeithas Edward Llwyd yn ardal Llangyndeyrn ac, os ’dach chi’n cofio’r gaeaf diwethaf, ni fyddech yn synnu i mi ddweud ei bod hi’n wlyb dan draed. Roedden ni’n hapus i fynd dros ein hesgidiau i’r mwd achos heblaw am ystyfnigrwydd a dewrder trigolion y pentref yn ôl yn y 1960au cynnar mi fydden ni wedi gorfod nofio y rhan fwyaf o’r ffordd! Ar y pryd roedd y frwydr fawr yn mynd ymlaen yn y gogledd efo trafferthion Capel Celyn a Chorfforaeth Lerpwl, ac oherwydd hynny efallai na chafodd hanes Llangyndeyrn gymaint o sylw ag yr oedd yn ei haeddu.

Yn ddiweddar, yn sgil difrodi’r arwydd Cofiwch Dryweryn enwog ar y wal ger Llanrhystyd, daeth achos Tryweryn i sylw’r genedl unwaith eto gyda llu o furluniau Cofiwch Dryweryn newydd yn ymddangos ym mhob man. Cyhoeddodd Y Lolfa lyfr, *Cofiwch Dryweryn* gan Mari Emlyn, sy’n olrhain yr hanes ac sy’n llawn o luniau yn dangos lleoliadau’r murluniau hyn.

Ymddangosodd un ohonyn nhw ar loches fysiau ar Fynydd Llangyndeyrn – ac ymhen rhyw wythnos, roedd rhywun wedi rhoi llechen oddi tano, â’r geiriau Cofiwch Llangyndeyrn. Fel y dywedir yn y llyfr, ‘Er eu prinned, mae’n hollbwysig ein bod yn cofio, ac yn dathlu, ein buddugoliaethau hefyd’




*Llun o gyfrol Cofiwch Dryweryn – Cymru’n Deffro gan Mari Emlyn, gyda chaniatâd gwasg Y Lolfa.*

Felly dyma fraslun o’r hanes.

Ar y chweched o Chwefror 1960 roedd llond gwlad o ddarllenwyr y Western Mail wedi eu gwylltio gan y faner ‘*Welsh Valley faces death by drowning*’. Faint mwy o’n gwlad ni maen nhw angen? Faint mwy maen nhw’n mynd i ddwyn? Ond nid rhyw gorfforaeth fawr yr ochr draw i Glawdd Offa oedd yn cynllwyno y tro yma ond Corfforaeth Abertawe, oedd eisiau boddi Cwm Gwendraeth Fach. Corfforaeth Gymreig neu beidio, doedd hyn ddim yn dderbyniol. Roedd y gogledd yng nghanol brwydro yn erbyn cynlluniau Corfforaeth Lerpwl i foddi Capel Celyn a dinistrio cymdeithas glòs, Gymraeg. Dyma enghraifft arall o gymuned yn mynd i gael ei dinistrio a’r boblogaeth glòs yn cael ei gwasgaru, a hen gysylltiadau teuluol yn diflannu. Roedd y rhan fwyaf o ddarllenwyr ein papur ‘cenedlaethol’ yn gallu symud ymlaen i’r ail dudalen ac, yn y pen draw, cael lloches yn y tudalennau cefn. Ond nid y darllenwyr o ardal Llangyndeyrn yng Nghwm Gwendraeth Fach. Iddyn nhw roedd hyn yn ergyd fawr; nhw fyddai’n gorfod gadael eu cartrefi, eu cymdogion, eu gwreiddiau.

Yn sydyn maen nhw’n byw mewn hunllef. Er bod pobl Capel Celyn wedi brwydro’n galed yn erbyn grym Corfforaeth Lerpwl roedd y gyfraith yn eu herbyn nhw. Doedd dim modd i drigolion Llangyndeyrn ennill wrth ddefnyddio’r gyfraith. Ar y 26ain o Fawrth 1960 ffurfiwyd Pwyllgor Amddiffyn. Y penderfyniad oedd cydweithio i sicrhau nad oedd yr ymchwilwyr yn cael mynediad i’r tir. Roedd rhaid cael sustem i rybuddio’r pentrefwyr bod swyddogion diarth yn yr ardal ac roedd y pentrefi cyfagos yn hapus i gymryd rhan. Unwaith yr oedd neges yn cyrraedd bod swyddogion ar y ffordd, roedd Jack Smith y clochydd yn canu cloch yr eglwys er mwyn cael pawb allan i’w rhwystro. Roedd pob giât i bob cae wedi ei chloi gan gadwyn a chlo clap, roedd peiriannau ffarm yn sefyll ym mhob bwlch ac, wrth gwrs, roedd y pentrefwyr ym mhob man. Roedd pawb yn gadarn ac yn benderfynol – ac roedd hyn yn amlwg i swyddogion Abertawe.

Ar y 4ydd o Chwefror 1964 mi wnaeth y Pwyllgor Amddiffyn gyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor Abertawe yn Neuadd Llangyndeyrn ond nid aeth y cyfarfod yn dda i swyddogion Abertawe. Bu raid iddyn nhw ildio – a throi eu golygon at Lyn Brianne. Ar y 14eg o Awst 1965 roedd cyfarfod diolchgarwch ar sgwâr y pentref i ddathlu’r fuddugoliaeth.


Mae llawer o arwyddion ‘Cofiwch Langyndeyrn’ o gwmpas yr ardal erbyn hyn, a go dda hefyd – mae’n stori gwerth ei chofio.

*****

*Fe gyhoeddodd y Lolfa gyfrol i ddathlu’r fuddugoliaeth honno – brwydr a ddisgrifiodd Gwynfor Evans fel 'un o'r penodau disgleiriaf yn hanes diweddar Cymru'.*

*Awdur y gyfrol oedd y Parch. W M Rees a oedd yn weinidog capel Bethel, Llangyndeyrn – ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Amddiffyn.*

*Mae ei ferch, Non Davies, yn byw ym Mhenarth ac rydym yn ddiolchgar iddi am gytuno i rannu rhai o’i hatgofion â’r Dinesydd.*




*Diolch i wasg Y Lolfa am ganiatâd i ddefnyddio llun o’r clawr.*

## IE, COFIWCH LANGYNDEYRN HEFYD!

Siwrne fer lai na phum milltir oedd hi dros y mynydd pan symudodd y teulu o gwm glofaol Gwendraeth Fawr i ardal amaethyddol cwm Gwendraeth Fach yn 1956. Roeddwn i'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Gwendraeth ar y pryd, a meddyliais y byddai bywyd siŵr o fod dipyn yn fwy llonydd a digyffro i ferch yn ei harddegau mewn cartref newydd yn y wlad.

Roedd ’Nhad, y Parchg W. M. Rees, gweinidog Tabernacl, Pontyberem, wedi derbyn galwad i gymryd gofal o'r achos ym Methel, Llangyndeyrn, a dyna sut y daethon ni i'n cartref newydd yn y mans – â'i enw addas, Bro Dawel.

Rwy'n cofio ’Nhad yn dweud wrthyf bod ffrind iddo wedi disgrifio'i symudiad i'r pentre gwledig fel un 'rhagluniaethol', achos rhoddodd Llangyndeyrn ddwy 'alwad' iddo. Yr ail un oedd galwad i fod ar flaen y gad i amddiffyn y cwm rhag ei foddi. Bedyddiwr, heddychwr a dirwestwr â thipyn o dân yn ei fol, oedd jyst y person i wynebu'r Goleiath, medde'r ffrind.

Rwy'n dal i ryfeddu ar sut enillodd Pwyllgor Amddiffyn Llangyndeyrn a'i gefnogwyr gwledig y frwydr arwrol a barodd am bum mlynedd – o gofio'r grymoedd pwerus oedd yn eu herbyn. I ddechrau, dyna rym corfforaethau dylanwadol yng ngorllewin Morgannwg. Mae'n gamgymeriad i feddwl taw Abertawe yn unig oedd ishe codi cronfa ddŵr yn Llangyndeyrn. Roedd yna saith arall, gan gynnwys trefi poblog Port Talbot a Chastell-nedd, yn galw am ddŵr i'w tai a'u diwydiannau.

Buodd grym cyfraith gwlad yn allweddol yn yr hanes. Roedd y Pwyllgor Amddiffyn yn barod i’w herio hithau hefyd am ei bod yn gyfraith ddrwg. Dywedodd Abertawe bod ganddyn nhw'r hawl i archwilio tiroedd y cwm o dan Ddeddf Dŵr 1948. Pan gyrhaeddodd ei mintai ar ddydd y goresgyniad, gyda gwarant o Lys Ynadon Caerfyrddin yn rhoi hawl gyfreithiol iddynt gael mynediad i gae fferm Glanyrynys, ataliwyd nhw gan y pentrefwyr. Roedd y gât wedi'i chloi a'i chadwyno'n dynn, a thu ôl iddi roedd offer trwm y fferm yn rhwystr dwbwl rhag i neb fynd i'r cae. Aeth neb drwyddi!

Roedd y trydydd grym dipyn o bellter o Langyndeyrn. Ond o'i swyddfa yn Llundain gallai'r Gweinidog Dros Faterion Cymreig yng nghabinet Harold Macmillan, ddylanwadu'n allweddol ar y frwydr. Buodd dau yn y swydd honno yn ystod y cyfnod, dau nad oedd Llangyndeyrn yn eu trystio o gwbl – Henry Brooke, (fe roddodd hawl i Lerpwl foddi Tryweryn) a Syr Keith Joseph, a roddodd y rhybudd trahaus i Langyndeyrn barchu'r gyfraith a gadael i Abertawe gael eu ffordd.



*Llun gan Non Davies – ei thad, y Parch. W.M.Rees (ar y chwith) a thrigolion Llangyndeyrn yn sefyll yn gadarn wrth gât fferm Glanyrynys, a hyfryd gweld gwên fach hawddgar ar wyneb y sarjant.*

Buodd bygythiadau difrifol hefyd yn gwmwl dros y pentrefwyr, sef y byddai Abertawe am gael hawl o'r Uchel Lys i archwilio tiroedd y cwm, yn ogystal â galw am help y Fyddin.

Yn y diwedd llwyddodd Llangyndeyrn i ddangos pa mor ynfyd oedd y syniad i foddi dros fil o erwau ffrwythlon pan oedd mannau mwy addas i gronni dŵr ym mlaenau diffaith afon Tywi. Ta beth, doedd dim digon o ddŵr yn afon Gwendraeth Fach i ddiwallu anghenion gorllewin Morgannwg, a buasai wedi bod yn rhaid pwmpio dŵr o'r Tywi i'w chadw'n llawn.

---

## ADDYSG GYMRAEG – GORFOLEDD YN PARHAU

Mae’r newyddion am dwf yn y mynediadau i’r ysgolion cynradd yn gwella o fis i fis, o’r rhagolygon ardderchog ym mis Mawrth i leoli 754 yn y rownd gyntaf ym mis Ebrill, i 768 erbyn dechrau Mehefin ac i 771 ddechrau Gorffennaf. Bryd hynny roedd 7 ysgol yn llawn, 5 bron yn llawn a 5 o hyd â llefydd gwag er, o’r rhain, dim ond 2 oedd yn gallu derbyn mwy na 10 ychwanegol, sef Coed-y-gof â 27 lle gwag, a Glan Morfa â 15. Mae’r ysgol sydd wedi tyfu leiaf ers agor yn 2009, sef Pen-y-groes, yn derbyn 21 disgybl newydd eleni. Mae’r rhifau hyn yn golygu y bydd bron 26 ffrwd yn derbyn Addysg Gymraeg eleni – cynnydd o 2 ffrwd o niferoedd 2019.

Y trueni yw methiant 15 plentyn i gael lle yn ysgol eu talgylch, sef Mynydd Bychan, yn wyneb methiant y Sir i wario’r £3M a ddyrannwyd yn 2018 gan Lywodraeth Cymru i’r pwrpas o helaethu’r ysgol hon. Mae’r Sir nawr yn addo gwneud trefniadau erbyn Medi 2021 i droi’r ysgol yn un dwy ffrwd ond yn yr apeliadau a fu yn yr wythnos ddiwethaf, roedd y Sir yn gwrthod cynllun dros-dro i ddefnyddio’r llyfrgell i ddarparu lle i’r 15 plentyn yn y dalgylch oedd yn cael eu gwrthod. Roedd y Pennaeth a’r Llywodraethwyr yn barod i fabwysiadu’r cynllun hwnnw i lenwi’r bwlch tan Medi 2021. Mae RhAG yn dal i frwydro trwy geisio ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym mherson Eluned Morgan, y Gweinidog dros Addysg Gymraeg.

Mae’n debyg bod mwyafrif y plant gwrthodedig yn mynd i ysgolion eraill – rhai i lenwi Glan Ceubal hyd at 30, a rhai mor bell â Phwll Coch. Mae o leiaf un wedi mynd, yn anfoddog, i ysgol Saesneg. Felly, yn bur debyg, bydd cyfanswm y plant a dderbynnir dros y 771 ar ddiwedd Rownd 3, ac at y rhai na chafodd le ym Mynydd Bychan fe ellir disgwyl hwyr-ddyfodiaid i Goed-y-gof.

Fe gawn y rhifau terfynol erbyn mis Medi.

*Michael Jones*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn longyfarchiadau a chariad cynnes at Gill ac Edryd wrth iddynt ddathlu eu priodas aur. Cynhaliwyd y briodas ar 16 Gorffennaf 1970 yng Nghapel Penmorfa ger Llangrannog.

Cydlawenhawn gydag Alwena gyda'r newyddion bod ei hŵyr Jac, mab Deiniol, wedi graddio yn y Dosbarth Cyntaf ar ddiwedd ei gwrs ym Mhrifysgol Derby mewn Modelu ac Animeiddio. Rheswm arall dros fod yn hapus yw bod Jac wedi dechrau mewn swydd newydd gyda chwmni peirianyddiaeth a phensaerniaeth. Ar ben hyn oll bydd Jac yn dathlu penblwydd yn 21 oed ym mis Awst.

Mamgu arall sy'n llond ei byd, a ninnau gyda hi, yw Moyra. Yn dilyn ennill gradd (2.1) o Brifysgol De Cymru (Casnewydd) mae Hannah wedi derbyn swydd yn Ysgol Gynradd Sant Curig, Y Barri, lle bu'n ddisgybl.

Newyddion hyfryd, hyfryd i bawb ohonom oedd clywed bod Helen wedi dod adref yn dilyn cyfnod digon blin yn Ysbyty'r Waun. Anfonwn gyfarchion gwresog iawn ati ac at Alun a gafodd amser caled o fethu ymweld â hi.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Catrin Awoyemi a'i theulu yn eu galar yn dilyn marwolaeth Mamgu. Meddyliwn yn gynnes am y plant, Esli, Gwri a Syfi, sy'n aml yn llonni'n haddoliad gyda'u bywiogrwydd hapus.

Mae ein 'cyfarfodydd' ZOOM wedi digwydd ar foreau Sul a Llun, gydag oddeutu 30 yn 'ymddangos' i'n gilydd, er lles cymdeithasol ac ysbrydol. Bu'n gweinidog yn tynnu'n sylw at y rhannau hynny yn Efengyl Mathew ac Efengyl Luc sy'n cyfeirio at heriau personol, megis pryder, a rheidiau corfforol, megis bwyd a diod. Gosodwyd y myfyrdod perthynol yng nghyd–destun ein sefyllfa ni heddiw a sefyllfa eraill yn y dyddiau dyrys hyn.

Rhyfeddwn at ddawn Euryn i lunio cerddi sy'n cysuro ac yn taro. Herio mewn ffordd arall y mae cyfraniadau Neville. Mae nifer ohonom yn dyheu am weld yr atebion cywir i'r cwestiynau a ddaw o Tecwyn Owen, tad Sian Meinir, ac eto'n ddiolchgar iddo am ein 'plygu'.

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

...i Esyllt Rosser ar ennill gradd mewn Daearyddiaeth yn Abertawe. Bydd yn cychwyn ar gwrs meistr tymor nesaf.

...i Branwen Jones ar ennill gradd B.Sc. mewn Bio-Cemeg ym Mryste.

...i Cai Hayes ar ennill gradd mewn Daearyddiaeth yn Exeter. Bydd yn cychwyn ar gwrs meistr tymor nesaf.

...i Beca Hayes, chwaer Cai ar ennill gradd LL.B. yn y Gyfraith ym Mryste.

**beibl.net i bobl Ifanc**

Ar 21 Gorffennaf lansiwyd trydydd fersiwn o beibl.net Arfon Jones, sydd yn aelod a diacon yn Ebeneser. Dyma Feibl newydd sy'n defnyddio testun poblogaidd beibl.net ac a ddatblygwyd ac a lansiwyd mewn cydweithrediad â phobl ifanc. Mae yn Feibl safonol clawr caled sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc, yn yr iaith Gymraeg ac yn llawn gwybodaeth a ffeithiau diddorol. Mae'n cynnwys dolenni i 30 fideo (YouTube) sy'n dadbacio themâu o'r Beibl, cannoedd o elfennau rhyngweithiol drwy'r Beibl i gyd sy'n annog y darllenwr i gloddio'n ddyfnach, gofod gwag er mwyn medru ysgrifennu, dwdlan a thynnu lluniau ar y dudalen, cyflwyniad un dudalen i bob llyfr yn y Beibl, 32 o dudalennau lliw o bwyntiau allweddol i'w dysgu, help gyda phynciau anodd, a gofod i gadw nodiadau personol. Dyma Feibl sy'n helpu pobl ifanc i ganfod eu hymatebion eu hunain i neges oesol y Beibl mewn ffordd sy'n berthnasol i'w bywydau. I archebu copi a/ neu i gael gwybodaeth am brisiau ewch i'r wefan isod:

www.ysgolsul.com

**Ysgol Sul...**

neu ysgol Zul fel mae'r cyfarfod ar Zoom wedi'i cael ei adnabod dros yr wythnosau clo o ganlyniad i Covid-19. Hoffem ddiolch o waelod calon i'r plant fu'n mynychu'r Ysgol Zul am gyfnod o 16 wythnos am eu ffyddlondeb (a'u rhieni hefyd). Fe gawsom lawer o hwyl yn y sesiynau byrion yn dysgu am Iesu ac yn ceisio canu. Diolch iddynt am baratoi cymaint o grefftwaith ac am anfon lluniau er mwyn i ni eu gweld yn y Llusern Fach. Pob bendith i chi yn ystod yr haf ac edrychwn ymlaen at eich gweld unwaith eto ym mis Medi.

## BETHEL, RHIWBEINA

Er bod drysau capel Bethel wedi bod ar gau ers misoedd bellach, rydym wedi cadw mewn cyswllt â'n cyd-aelodau. Diolch mawr i'n gweinidog, y Parchg Evan Morgan, am drefnu oedfaon ar Zoom bob bore Sul ers dechrau Ebrill gyda chyfle i wrando ar bregeth ac i gyd-weddio. Bu cyfle hefyd i fwynhau cyfraniadau gan nifer o'n cyd-aelodau. Diolch i Shirley Williams, Rosina Davies a Lois am eu darlleniadau ac i Trystan Francis am ei unawdau. Roeddem hefyd wedi mwynhau darlleniadau a chyfraniadau cerddorol gan aelodau Salem. O ystyried y niferoedd sydd wedi ymuno â'r oedfaon Zoom, mae'n amlwg bod y cyfrwng hwn wedi bod yn boblogaidd a phwysig dros ben yn ystod y cyfnod clo.

Trefnwyd Boreau Coffi hefyd trwy gyfrwng Zoom gydag Evan yn arwain y sgwrs ac yn rhoi cyfle i ni rannu newyddion ac i godi llaw ar ein gilydd. Mae Evan a llawer o'r aelodau wedi cadw cyswllt â'r rhai nad ydynt yn gallu ymuno ar Zoom trwy alwadau ffôn ac ymweliadau â phobl yn eu gerddi.

Yn ystod y cyfnod clo dathlodd Mair ac Arthur Jones eu priodas ddeimwnt. Danfonwn ein dymuniadau gorau atynt.

Mae Evan hefyd wedi cychwyn y 'Goleufa', sef cylchlythyr ar gyfer rhannu gwybodaeth ynglyn â chapeli Salem a Bethel.

Bydd yr oedfaon Zoom yn parhau trwy'r haf a hefyd yn ystod mis Medi. Erbyn hynny gobeithir cael gwybodaeth pellach ynglyn ag ail-agor y capel.

Diolchwn i Evan am ei holl ymdrechion i'n cadw gyda'n gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.



## TABERNACL, YR AIS

**Pregeth gyntaf**

Ar nos Sul olaf mis Mehefin cawsom y fraint o wrando ar Noa Evans yn arwain ei oedfa gyntaf drwy'r cyfrwng digidol. Yna, ar nos Sul 20 Gorffennaf pan agorwyd drysau'r capel i addoli unwaith eto, Noa drefnodd yr oedfa gyfan. Calonogwyd pawb gan aeddfedrwydd ac ymroddiad Noa ac roedd y modd yr aeth ati a'r hyn a rannodd yn ddyrchafol iawn.

**Ymdrech Joseff Maitland**

Llongyfarchiadau i Joseff ar lwyddo yn yr her a roddodd i'w hun o gerdded 100 miltir gyda'r teulu yn ystod mis Mehefin – mis ei ben-blwydd yn 10 oed. Gwnaeth hyn i godi arian i Ysbyty Arch Noa fel gwerthfawrogiad o'r gofal a gafodd ei frawd Steffan ganddynt pan yn faban. Mae cyfanswm cyfredol Joseff yn £1540, ac mae'r teulu am ddiolch am bob cefnogaeth gan bawb ac yn arbennig am haelioni Teulu'r Tabernacl.

**Swyddogion Ysgol Plas Mawr**

Llongyfarchiadau i Greta, wyres Linda Gruffudd, ar ei phenodi yn brif ferch Ysgol Plas Mawr, a Beca, merch Gwenllian Edwards, yn ddirprwy iddi.

**Te Prynhawn Sul**

Er bod y ddarpariaeth wedi dod i ben dros gyfnod Covid-19, penderfynwyd anfon £200 at waith Hostel Huggard gyda'r di-gartref, a £200 i elusen Llamau. Diolch bod yr asianteithau hyn ac eraill yn darparu llety a bwyd i'r sawl sy'n cael anawsterau i ofalu amdanynt eu hunain.

**Dau lun o'r capel**

Yn ystod mis Mehefin derbyniwyd dau lun o'r capel gan yr artist, y cerddor a'r iodlwr Ieuan Jones, organydd Eglwys Dewi Sant. Maent yn lluniau hardd, a chyflwynodd nhw i'r eglwys fel cyfraniad at y gost o beintio blaen y capel ac addasu'r dderbynfa. Bwriedir adeiladu llwybr i sicrhau mynediad rhwydd i bobl anabl. Y ddau a ddaeth yn fuddugol wrth gynnig y symiau uchaf oedd Eiri Jones a Gruff McVeigh.

## EGLWYS Y CRWYS

Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n cyn-aelodau, sef Yr Athro Glyn O. Phillips. Bu'n aelod ffyddlon yn Y Crwys tan yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mrs. Rhiain Phillips ac ag Aled ac Ellen a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i'n hieuenctid ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn ystod yr haf a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol. Pob dymuniad da hefyd i'r plant fydd yn mynd i'r Ysgolion Uwchradd ym mis Medi.

Mae'r Ysgol Sul wedi cyfarfod yn rhithiol bob bore Sul dros y cyfnod clo. Bydd y rhieni a'r plant yn cael seibiant haeddiannol yn ystod mis Awst. Diolch iddynt oll am eu ffyddlondeb.

Cynhaliwyd gwasanaethau rhithiol bob Sul yn ystod mis Gorffennaf. Diolch i'r Gweinidog, y Parchg Aled Huw Thomas, ac i Mr William Tiplady a Mr Peredur Owen Griffiths am eu harweiniad ac i'r aelodau a gymerodd ran yn y gwasanaethau.

Tra'n paratoi hyn o nodiadau, nid yw'n sicr os byddwn yn gallu agor drysau'r capel ym mis Medi. Y gobaith yw y gallwn groesawu yr aelodau yn ôl ddechrau'r mis. Yn y cyfamser pob dymuniad da i chi i gyd a chadwch yn ddiogel.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Newyddion**

Dymunwn yn dda i Dan a Ffion Murdoch yn eu cartref newydd ac i Ffion wrth ddechrau ar ei gwaith fel meddyg yn Ysbyty'r Brifysgol.

Llawenhawn gyda Miriam Williams a Thomas Oldridge ar eu dyweddïad a dymunwn yn dda i Miriam wrth iddi ddechrau ar ei swydd fel therapydd lleferydd yng Nghaerfaddon.

**Cyfarfodydd**

Parhawn i gynnal ein hoedfa fore Sul ar YouTube ac yna ymgynnull ar Zoom i gymdeithasu. Mae'r Astudiaeth Feiblaidd am 5 o'r gloch brynhawn Sul hefyd ar Zoom. Diolchwn am y dechnoleg sydd yn ein galluogi i gyfarfod fel hyn yn rhithwir ond edrychwn ymlaen yn fawr at gael ymgynnull unwaith yn rhagor yn adeilad yr eglwys.

**Trafod Emynau a Cherddi Cristnogol**

Bob nos Iau am 8.15 bu'r Athro E. Wyn James yn cynnal sesiynau i drafod emynau a cherddi Cristnogol. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn boblogaidd ac yn fuddiol iawn wrth i ni werthfawrogi cyfoeth ein hetifeddiaeth Gristnogol. Y bwriad yw cael toriad yn ystod mis Awst ac yna ail ddechrau ym mis Medi ar yr amser newydd o 8 o'r gloch. Bydd croeso mawr i unrhyw un ymuno â'r sesiynau a gellid gwneud hyn drwy gysylltu â Wyn:
jamesew@caerdydd.ac.uk

Fel rhan o'n hoedfaon fore Sul mae Wyn ar sawl achlysur wedi esbonio rhai o'n hemynau. Mae'r cyfraniadau hyn yn ogystal â'r oedfaon yn awr i'w gweld ar YouTube Eglwys Efengylaidd Caerdydd.

## EGLWYS MINNY STREET

Yn ystod mis Gorffennaf, parhaodd aelodau'r eglwys i gydaddoli ar fore Sul yn eu cartrefi eu hunain â chymorth taflenni oedfa a baratowyd ar ein cyfer gan y Gweinidog – hyn yn unol â'n harferiad ers diwedd Mawrth bellach ac yn brofiad bendithiol iawn. Wrth i gyfyngiadau Llywodraeth Cymru ddechrau llacio, bu modd cynnig cyfle i aelodau sy'n dymuno ac yn rhydd i wneud hynny ddod i'r capel am gyfnod o weddi dawel, bersonol ben bore Sul. Cymerwyd y cam cyntaf gofalus hwn wedi'r cyfnod clo yn unol â chyfarwyddiadau a chanllawiau manwl y Llywodraeth.

Yn sgil llacio pellach ar y rheoliadau o ran ailagor addoldai, bwriedir agor y capel ar gyfer addoliad ar foreau Sul ym mis Awst. Oherwydd yr angen i sicrhau diogelwch, bydd yr addoliad yn brofiad gwahanol iawn i'r hyn rydym yn gyfarwydd ag ef, a bydd yr angen i gadw pellter yn cyfyngu'n sylweddol ar nifer y gynulleidfa a all fod yn y capel ar gyfer yr addoliad a rhaid bydd dilyn y cyfarwyddiadau manwl a ddosbarthwyd i'r aelodau. Bydd y taflenni yn parhau i gael eu dosbarthu i bob aelwyd fel bod pawb, boed yn y capel neu ar yr aelwyd, yn gallu cydaddoli. Mae'r taflenni oedfa i'w gweld ar wefan ac ar ffrwd drydar yr eglwys.

Aeth yr Ysgol Sul o nerth i nerth ar Zoom a bu cryn edrych ymlaen at fideo bywiog wythnosol y Gweinidog ar gyfer y plant. I'r sawl â chyfrif trydar, cafwyd darpariaeth ysgrythurol ac ysbrydol gyson ar gyfrif *@minnystreet*, yn cynnwys dyfyniadau o eiddo cyn-Weinidogion yr eglwys wedi'u gosod ar bortreadau dyfrlliw ohonynt o waith ein Gweinidog. Mae Undeb yr Annibynwyr wedi bod yn darparu oedfa ddigidol bob bore Sul, ac ar Sul cyntaf Gorffennaf ein Gweinidog oedd yn ei harwain. Mawr yw ein diolch i Manon a Mared Browning, ac Enlli a Lleucu Parri am ddiddanu rhyw 50 o aelodau a chyfeillion ag amrywiaeth o gerddoriaeth ar delyn a ffliwt ar Zoom yn ddiweddar er budd elusen *Maggie's*.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**John Lewis**

Tan yn ddiweddar iawn, siop yng Nghaerdydd oedd 'John Lewis' i mi.

Ond daeth John Lewis arall i'm sylw ychydig wythnosau yn ôl, yn dilyn marwolaeth gŵr 80 oed yn yr Unol Daleithiau.

*"Magwch gariad a heddwch yn unig yn eich calon... Dewiswch yn ddoeth unrhyw wrthdaro, ond pan ddaw eich amser, peidiwch â bod ofn sefyll a datgan barn yn erbyn anghyfiawnder."*

Mae unrhyw un sy'n mynegi geiriau fel yna yn haeddu'n sylw, a phan sylweddolais mai Democrat o Gyngreswr croenddu ydoedd, fe'm hoeliwyd gan ei hanes. Fe ymladdodd o oed ifanc iawn dros hawliau ei hil, ochr yn ochr a'r Dr Martin Luther King yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Safodd ysgwydd wrth ysgwydd ag eraill mewn protest heddychlon ar draws Pont Edmund Pettus yn Selma, Alabama, a dioddefodd anaf difrifol i'w benglog o faton yr heddlu am ei hyfdra. 'Roedd yn un o'r 13 o 'Deithwyr Rhyddid' o Washington i New Orleans a geisiodd ddylanwad ar ddiddymu'r arfer o 'deithio-ar-wahan' ar drafnidiaeth gyhoeddus. 'Roedd yn un o drefnwyr yr orymdaith i Washington yn 1963, pan gyflwynodd Martin Luther King ei araith enwog 'Mae Gennyf Freuddwyd'.

Fe'i curwyd yn ddifrifol, ond yn 2009 cyfarfu â'r gŵr a'i bwriodd a'r tro yma mynnai hwnnw ysgwyd ei law a gofyn maddeuant.

Pan ail-grewyd ei daith dros Bont Edmund Pettus yn 2015, i gofio'r digwyddiad 50 mlynedd yng nghynt, 'roedd yng nghwmni Barack Obama, Arlywydd croenddu cyntaf yr UD.

Parhaodd yn llais ac yn lladmerydd i'r mudiad hawliau dinesig, gan ymfalchïo yn ymdrech yr ymgyrchwyr diweddar, yn dilyn marwolaeth George Floyd, fel 'cenhedlaeth newydd yn sefyll dros ryddid a chydraddoldeb'.

Yr olaf o'r chwech o fawrion y mudiad Hawliau Dinesig yn yr UD.

*"Rhaid i ni gredu mai un pobl ydym, un teulu. Nid troi **yn erbyn** ein gilydd a ddylid ond yn hytrach troi **at** ein gilydd."*

## EGLWYS DEWI SANT

**Addoli ar yr Aelwyd**

Parhawn i dderbyn dau wasanaeth y Sul trwy gyfrwng y we a thrwy ymdrechion llawer, ac yn enwedig Dyfrig, y Ficer, Ieuan yr Organydd, yn ogystal â Megan gwraig Ieuan ar gyfer gwasanaeth yr Hwyrol Weddi ar Gân. Mae'r rhain yn fendith ac yn gysur a'n gwerthfawrogiad ninnau yn fawr iawn.

**Llongyfarchiadau**

Llawenydd, yn enwedig mewn cyfnod anodd fel hwn, yw estyn llongyfarchiadau

... i Siôn Brynach ar ei ordeinio yn ddiacon gan Esgob Llandaf yn ddiweddar. Bydd yn gwasanaethu fel Curad yn Eglwys Grist, Parc Y Rhath.

... i Chris a John Livsey ar ddathlu eu priodas aur ddechrau mis Awst.

... i Hannah Watkin ar ennill ei gradd mewn Hanes ym Mhrifysgol Rhydychen.

**Coffi a Chlonc**

Diolch eto i Siân Eleri Thomas am gynnal ac arwain bore Coffi a Chlonc rhithiol ar y Zoom ar 18 Gorffennaf. Y bwriad yw cynnal un arall fis nesa ar 15 Awst rhwng 10:30 a 12:00.

**Cloch Dewi**

Yn ystod Gorffennaf cyrhaeddodd rhifyn diweddaraf a hynod ddiddorol o Cloch Dewi – Cylchgrawn Eglwys Dewi Sant. Ymhlith y cynnwys difyr mae erthygl ar ganmlwyddiant datgysylltu eglwys Loegr yng Nghymru, deddf a adenillodd i'r Eglwys Geltaidd ei hannibyniaeth hynafol.

Ysgrifennodd y ficer am gerdd Y Ficer Pritchard yn 1625 i'r 'Chwarren' sef y pla – y *Bubonic Plague* - a elwid yn ogystal yn 'haint y nodau'.

Yng ngwasanaeth Y Litani yn y Llyfr Gweddi Gyffredin 1664, gofynnir am gael ein harbed, ymhlith pethau eraill, ….' oddi wrth bla, haint y nodau a newyn.'

Gwelwyd llawer o luniau da iawn yn ogystal! Diolch yn fawr i Wyn Mears y golygydd am ei holl waith ac am drefnu bod copïau caled i'w cael drwy'r post i'r rhai na all ei dderbyn yn ddigidol.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn ag Ann Wyn Jones ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar.

## TABERNACL, Y BARRI

Tra bod America yn dathlu ei hannibyniaeth ar 4 Gorffennaf, roedd Geraint Scott a Stacy yn dathlu eu priodas.

Oherwydd Covid-19 bu rhaid gohirio'r briodas, ond manteisiwyd ar y cyfle cyntaf dan y rheolau. Meddai Geraint, "Dim y diwrnod wnaethon ni gynllunio ond hynod o falch i ddweud fy mod wedi priodi Stacy heddiw. Diolch i bawb sydd wedi'n cynorthwyo i allu cynnal y briodas. Diolch enfawr i Lucy Fflur Jones am chwarae'r piano ac i Kevin am ei holl arweiniad."

Bu'n gyfnod prysur iawn i'n gweinidog Kevin Davies wrth iddo gynnal yn ddwy eglwys yng ngofalaeth Bro Morgannwg. Aethom yn hollol ddigidol! Dwy oedfa gymun ar fore Sul, un ar Facebook ac un ar Zoom, sesiwn gymdeithasol ar Zoom bob bore Llun i rannu gwybodaeth a syniadau a threfn o gylchredeg myfyrdodau, cerddi a cherddoriaeth ar ein tudalennau Facebook a thrwy e-bost.

Mi fydd pethau'n tawelu yn ystod mis Awst ac mi fyddwn yn cynnal oedfa fer a sgwrs ar Zoom bob bore Sul er mwyn cadw mewn cysylltiad tra bod Kevin yn cael cyfle i fynd adre i Aberystwyth.



*Stacy a Geraint*

# NEGES
# O DORONTO

## Lowri Haf Cooke fu'n holi Dafydd Palfrey wrth i gyfyngiadau'r Cyfnod Clo gael eu llacio

*Mae Dafydd Palfrey yn gyfarwyddwr ac yn ysgrifennwr ffilm a theledu. Mae e'n byw rhwng Caerdydd a dinas Toronto yng Nghanada, ble mae e'n byw gyda'i ferch Nel. Bu'n aelod o Hanner Pei - un o fandiau mwyaf poblogaidd Ysgol Glantaf – ac mae'n aelod o fand The Dave Palmtree and the Palmtree Trio, sy'n perfformio yn Nhoronto a Chymru.*



Mae Toronto wrthi'n deffro. Dros dalaith Ontario, mae siopau, tafarndai a busnesau'n agor. Mae Toronto - dinas fwyaf y dalaith, a'r bedwaredd fwyaf yng Ngogledd America - yn *Phase 2*, ac ar drothwy *Phase 3*. Mae *patios* tafarndai ar agor, a'r ddinas yn dechrau mwynhau eto.

Mae'n boeth - yn yr ugeiniau uchel - ac mae'r parciau'n llawn pobol sy'n trio'u gorau glas i gadw at y rheolau. I drio helpu'r achos, mae cyngor y ddinas wedi gosod cylchoedd mawr gwyn ar y borfa - dwy fetr ar wahân - er mwyn i grwpiau gadw draw oddi wrth ei gilydd, o fewn cyffiniau'r *vicious circles*.

Fel rheol, dwi'n dychwelyd i Gymru i weithio'n reit aml. Ar ddiwedd Mis Mawrth eleni, roedd gen i *stint* cyfarwyddo ar *Pobol y Cwm*, ond wrth gwrs, aeth pethau'n draed moch gydag ymddangosiad y coronafirws, a ches i ddim cyfle i weithio gydag Emyr Wyn! Yn ffodus, mae gen i ddigon o waith 'sgwennu, sy'n ddigon ynysig ta beth, felly beth yw'r gwahaniaeth? Ond yn ddiweddar, ges i gyfle i gyfarwyddo (o bell) fideo cerddorol i ffrind - rapiwr o'r enw MC Abdominal sy'n byw yn Toronto. Cyfarwyddo o bell yw e-bostio rhestr o *shots* at dy ffrind er mwyn iddo ffilmio'r cyfan ar ei ffôn gan obeithio bydd y lluniau'n dychwelyd yn well na rybish. Ond ges i siom ar yr ochr orau gyda'i waith a dwi'n credu bod y darn gorffenedig yn siwtio'r gân i'r dim.

Er nad ydw i'n medru cyfarwyddo yn y cnawd (ddim yn noeth) na pherfformio'n fyw (weithiau'n noeth) ar hyn o bryd, dwi'n ffodus iawn bod gen i waith datblygu rhaglenni a 'sgwennu. Felly, bob dydd dwi'n deffro - bach yn rhy hwyr - sgrechian mewn i'r gobennydd a dechrau'r gwaith.

Sôn am sgrechian, dwi wedi bod yn ymarfer *Karate* ers o'n i yn y coleg ac yn aelod o glwb yn Toronto. Ers yr haint, mae'r *dojo* wedi cau. Ond nawr bod y ddinas yn *Phase 2*, dwi wedi bod yn cwrdd â ffrind o'r clwb i ymarfer *katas* (cyfuniadau o symudiadau) yn y parc. Teimlad eitha chwithig i ddechrau, ond ar ôl sylweddoli bod neb yn cymryd lot fawr o sylw, dwi 'di bod yn cicio a sgrechian heb unryw gywilydd.

Does dim amheuaeth, mae Covid-19 yn rybish - y firws ei hun a'r ffenomen o ynysu - a dydy'r cyfryngau ddim yn helpu. Ar y cyfan, mae'r newyddion yn canolbwyntio ar yr ochr negyddol yn ormodol, a'r cyfryngau cymdeithasol yn adlewyrchu'r agwedd negyddol yma. Mae pawb i weld mor ddig ar hyn o bryd.

Fel y mae i'r mwyafrif o bobol, colli cysylltiad 3D gyda theulu a ffrindiau oedd y peth anoddaf i fi am *lockdown*, a'r teimlad trwm, tywyll, afiach o alaru am hen ffordd o fyw. Ond erbyn hyn, dwi'n gadael i'r teimladau gwael hyn basio, a chymryd cysur yn y pethau bychain, fel rhannu jôc gyda fy merch Nel, linc twp gyda'n ffrindiau yng Nghymru, neu gwylio fideos am *guitar pedals* ar y wê. Ie, dwi wedi troi mewn i bach o nerd…a dwi'n eitha hapus am y peth!

Dwi hefyd wrth fy modd i weld Cymru yn dangos nerth newydd mewn ymateb i wallgofrwydd San Steffan, a dwi wedi gwirioni gyda'r brwdfrydedd newydd am annibyniaeth. Gobeithio'n arw bydd y momentwm yma'n parhau!

Yr unig neges neu gyngor fedra'i gynnig i unrhyw un sy'n darllen hwn yw rhywbeth ddarllenais i'n ddiweddar gan ddarlunydd o America o'r enw James Victore: *"Normal means to unconsciously follow what others say is acceptable for you. Following external instructions and not listening to your own guidance system is normal. Sad, straightforward and normal. Stay weird, baby."*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Y Cudyll Bach

*(Merlin, Falco columbarius)*

*Brodor o Lansadwrn yn Nyffryn Tywi yw Tom C. Jones. Cafodd ei addysg gynradd yno, yna Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri, ac ymlaen i Brifysgol Abertawe i astudio Botaneg a Daearyddiaeth. Ar ôl dysgu yn Dorset am dair blynedd trafaeliodd i Affrica i ddysgu yn Nairobi am ychydig.*

*Dychwelodd i Gaerdydd i fod yn athro yn Ysgol Gyfun Radur, ac yno y buodd e hyd at ei ymddeoliad yn 1997. Wedi hynny, cymerodd fân swyddi i lenwi ei amser sbâr, gan gynnwys y Cyngor Llyfrau ac fel swyddog addysg yn y Senedd.*

*Ei ddiddordebau mwyaf yw celf a chanu corawl. Bu'n aelod o Gôr Plant Cwmdŵr, ac yn ddiweddar Côr Godre'r Garth, Côr Hen Nodiant a Chorws y BBC.*

*Ei waith ef yw'r arlunwaith a'r hanesyn isod.*

Yn anffodus, nid ein dewin, Myrddin, neu Merlin, yw tarddiad yr enw Saesneg ar yr aderyn hardd hwn. Rhyw enw Eingl-Ffrengig am falcon yw e; yn wyddonol, *Falco columbarius* (boda colomennol) – gan gyfeirio, efallai, at ei faint, sef maint colomen.

Hwn yw aderyn ysglyfaethus lleiaf ein gwlad. Fel rheol mae'n byw yn y gweundiroedd gwlyb yn yr uchelfannau ymysg blodau porffor y grug.

Darlun o'r ceiliog a welir yma, yn eistedd ar bolyn a'i ysglyfaeth yn dynn yn ei grafangau. Annhebyg y gwelwn un o'r rhain yn ein hardal ddinesig ni.

Ei dechneg wrth fwydo yw hedfan yn isel ar draws y gors a chodi'n sydyn dros y waliau cerrig a pheri syndod i'w ysglyfaeth amharod ar yr ochr draw. Yn rhan o'i ddeiet mae adar bychain fel corhedydd y waun, y ji-binc a'r titw. Mae'r rhain, yn eu tro, yn llwyr ddibynnu ar flodau'r grug am eu cynhaliaeth hwythau.

Mae enw'r Cudyll Bach ar y rhestr goch, sydd yn golygu bod ei fodolaeth o dan fygythiad difrifol. Colli cynefin yw'r bygythiad mwyaf wrth ehangu fforestydd a'r tiroedd glaswelltog sy'n cynnal defaid. Yn ei dro, mae'r Cudyll Bach yn cael ei ysglyfaethu gan y Gwalch Glas. Druan ohono – ergyd ddwbwl! Beth ddaw ohono, pwy a ŵyr?



# Côr Meibion Taf yn mentro i'r byd rhithwir

Wel dyma i chi gyfnod hynod. Yn bersonol rwy'n credu bod y Cyfnod Clo wedi bod yn haws na'r Cyfnod Efallai hwn. Beth sy'n saff neu'n beryglus, mewn yn y tŷ OND ar wahân neu ma's yn yr ardd a cherdded o gwmpas fel dwy gath yn llygadu ei gilydd? Mae pethau'n gwella, gallwn deithio i sefyll tu fa's i ffenest ffrynt yr wyrion a wedyn gyrru adre neu edrych fel Bandit yr Andes yn Tesco. Beth ddigwyddodd i'r rheol na fedrech chi wisgo cap Balaclava yn y banc tybed? Ta waeth, daw haul ar fryn, rhywbryd, mae'n siŵr.

Mae hwn yn fy arwain at bwynt y nodyn. Mae Côr Meibion Taf wedi bod yn cynnal ymarferion ers dechrau'r Clo Mawr. Wel, rhyw fath o ymarferion, dan arweinyddiaeth amyneddgar Steffan Jones. Mae rhaid ei bod hi'n anodd iawn i ganu rhannau ar gyfer côr a chlywed neb yn ymateb ond dyna wnaeth Steff, a ninne fel aelodau yn ceisio efelychu ei lais melfedaidd yn ein cartrefi a neb ond y gath neu'r wraig yn gwrando. Mae'n siŵr 'da fi fod ambell i gwrcyn wedi hen adael yr aelwyd ac ambell i wraig wedi bygwth mynd hefyd. O'n i'n meddwl bod llais fel Pavarotti 'da fi nes i fi glywed fy hun yn canu ar y ffôn clyfar.

Dyna'r cefndir. Penderfynwyd ceisio creu un o'r rhith fideos hyn. Wel, sôn am strach. Roedd cael y bois i ymuno â Zoom yn ddigon i greu ffars newydd ar gyfer S4C, ond pan aethpwyd ati i greu rhith gôr gan ddefnyddio cluniadur (*laptop* i bobl fel fi) a ffôn clyfar ar yr un pryd ... anghofiwch am y cwrcyn a'r wraig, y *laptop* a'th ma's trwy'r ffenest! Beth bynnag, fe ddaeth y peth i fwcwl ac fe grëwyd datganiad digon teilwng o 'Deus Salutis' sydd erbyn hyn wedi cael ei weld gan dros ddwy fil o ddilynwyr ar YouTube. Yn dilyn hwn penderfynwyd gwneud recordiad tebyg o 'Daw Haul ar Fryn Gerllaw', cyfieithiad Emyr Davies o 'You'll Never Walk Alone', addas ar gyfer yr amserau hynod hyn. Diolch i Steff ac i Lowri Guy ein cyfeilydd am eu gwaith. A hefyd diolch i Irfon Bennett am ei amynedd a'i grefft wrth dynnu'r holl ymgeision canu at ei gilydd i greu'r cyfanwaith. Hefyd, diolch i Colin Williams, un o'n tenoriaid uchaf am ei englynion (isod) i gyflwyno'r ddwy gân – addas a phriodol yn y cyfnod hynod hwn.

Deus Salutis

Fesul un fe gyfunwn – a'n fideo<br>
Govidie recordiwn,<br>
Mawl yr Oen, ei boen a'i bwn;<br>
Yn ei ras fe oroeswn.

Daw Haul ar Fryn Gerllaw

Rhannwn gân, a rhai'n gweini – eu gofal<br>
Am gyfaill sy'n gwelwi,<br>
Alaw annwyl goleuni<br>
I nyrsys ein henfys ni.

*Rhodri Jones*

# Profiadau Dau Fyfyriwr yn ystod y Cyfnod Clo



*Mae Gethin Jenkins-Jones yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf. Dros y tair mlynedd diwethaf bu'n astudio Cadwraeth ac Ecoleg ym Mhrifysgol Caerwysg ar gampws Falmouth yng Nghernyw. Yma mae'n olrhain hanes ei brofiad o fyw oddi cartef yn ystod cyfnod cynnar COVID-19.*

Gyda thraethawd hir i'w gwblhau ac arholiadau pwysig yn nesáu, roedd nifer o bethau yn chwyrlio trwy fy mhen yn gynnar yn y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, i mi (fel y mwyafrif) roedd y firws yn broblem tu hwnt i'r gorwel - fel storm bell nag oeddwn yn disgwyl iddi agosáu. Ond pan ddaeth yn amlwg nad oedd am ildio, esgynnodd teimlad o aflonyddwch a thensiwn yn y brifysgol hyd nes y daeth y glec yng nghanol mis Mawrth. Daeth y darlithoedd i ben dros nos, a daeth e-bost o'r brifysgol yn annog myfyrwyr i ddychwelyd adref. Ffoi wnaeth y rhan fwyaf o'm ffrindiau dros y dyddiau a ddilynodd, ond penderfynais aros i gwblhau fy ngwaith, gan dderbyn y byddai angen i mi ynysu efo fy unig gydletywr am y tro.

Ond, er natur drychinebus y sefyllfa, dwi ddim yn teimlo bod y misoedd olaf yn y brifysgol wedi eu difetha'n llwyr. Cefais fwy o amser i berffeithio fy nhraethawd hir a pharatoi am yr arholiadau (a oedd bellach ar-lein), ond, yn bennaf oll, llwyddais i ffeindio ffurfiau eraill i gael mwynhad. Dechreuais drwy brynu llyfrau am natur - yn enwedig rhai am wenynnau y wlad. Yn ogystal â'r mwynhad a gefais wrth ddysgu mwy am eu hecoleg, cefais fy sbarduno i fynd allan i chwilio am rai o'r rhywogaethau a oedd wedi bod yn hollol ddieithr i mi cyn hynny, ac yn aml cefais deimladau tebyg i blentyn ar helfa trysor. Yn y nosweithiau, treuliais nifer o oriau yn gwylio ffilmiau - yn enwedig argymhellion fy ffrindiau (yn bennaf ffilmiau ffantasi fel *Star Wars*, *Star Trek* a *Marvel*). Cefais syndod o'r ddihangfa berffaith y gall gwylio ffilmiau o'r fath ei chreu, ac yn well fyth, roedd eu gwylio yn rhoi ffocws mwy positif i'r sgyrsiau fideo gyda fy ffrindiau wrth i ni eu trafod. Trwy wneud hyn, yn aml byddwn yn osgoi obsesu am sefyllfa druenus y wlad a gadael y naws i lithro i un o anobaith.

Wrth i'r dyddiau gynhesu cefais y mwynhad o allu nofio yn y môr i chwilio am bysgod ymysg y gwymon, ac yn yr wythnosau olaf roedd modd gweld ambell ffrind (o bellter rhesymol) ar y traeth. Er bod fy nghyfnod yn y brifysgol wedi dod i ben, bydd sawl ffrind yn y dre flwyddyn nesaf, ac rydw i dal yn obeithiol o allu treulio amser gyda nhw cyn diwedd y flwyddyn. Bydd hynny'n cloi fy mhennod olaf yn y brifysgol ar nodyn cadarnhaol a phleserus.

---



*Mae Gethin Ray yn ddisgybl ar ei flwyddyn olaf yn Ysgol Glantaf. Yn yr hydref y mae'n gobeithio mynd i Brifysgol Aberystwyth. Yma mae'n adrodd sut y daeth ei yrfa yng Nglantaf i ben yn ddisymwth o ganlyniad i'r Covid-19.*

Dechreuodd y cyfyngiadau Covid ar 23 Mawrth. Ar 18 Mawrth cawson wybod fod yr ysgolion am gau o fewn 2 ddiwrnod. Roedd hyn yn newyddion rhyfedd a wnes i ddechrau meddwl am yr holl bethau roeddwn i angen gorffen megis y fideo ymadael a fy ngwaith ysgol. Yn ffodus, cawson ein gwasanaeth ymadael ar ein diwrnod olaf, sef 20 Mawrth. Roedden ni wedi llenwi'r neuadd yn llawn gyda chadeiriau er mwyn i bob disgybl allu eistedd chwe troedfedd i ffwrdd yn ystod y gwasanaeth. Roeddwn i'n teimlo'n eithaf emosiynol gan fy mod wedi bod trwy'r ysgol am 7 mlynedd gyda llawer o atgofion ac roedd yn rhaid i ni offen popeth o fewn 48 awr. Roedd yr awyrgylch yn yr ysgol yn teimlo'n rhyfedd iawn gan nad oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion iau wedi dod i mewn ar y dydd Iau na'r dydd Gwener. Er hyn, cyn gynted ag yr oedden ni tu fas i'r ysgol, cawson luniau gyda'n gilydd a hefyd gyfle i arwyddo crysau'n gilydd er mwyn gallu cofio am bawb.

Yn yr wythnosau dilynol gweithiais ar Brosiect Unigol y Fagloriaeth a bu cyflawni hyn yn sialens gan na allwn gael unrhyw help wyneb yn wyneb. Cyflwynais y gwaith ac erbyn canol mis Ebrill roeddwn wedi gorffen fy amser fel aelod o'r chweched dosbarth yng Nglantaf.

Ar ôl gorffen yr ysgol, cefais gyfle i feddwl am yr holl newidiadau sydd wedi digwydd. Doedd dim angen adolygu dros y Pasg a doedd dim arholiadau ym mis Mai. Roedd hwn yn adeg rhyfedd iawn. Un peth positif a ddaeth o'r cyfnod hwn oedd cael digon o amser i ddewis y cwrs Prifysgol mwyaf perthnasol i fi. Roedd hyn rhwng Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn y diwedd dewisais Aberystwyth ac rydw i wedi cael cadarnhad o lety ym Mhantycelyn. Er hyn, dwi'n aros am fy nghanlyniadau ar 13 Awst. Yn ffodus, tuag at ddechrau'r cyfnod clo, ces gynnig diamod oddi wrth Brifysgol Metropolitan Caerdydd, sef fy opsiwn wrth-gefn. Roedd hyn wedi helpu fy iechyd meddwl llawer gan nad oedd angen i fi boeni gymaint am yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl y diwrnod canlyniadau. Mi fydd y diwrnod hwn yn wahanol eleni gan fy mod i yn mynd i gael fy asesu ar fy ngwaith trwy gydol y flwyddyn ac yn cael marciau sydd wedi eu rhagfynegi. Yn lle mynd lawr i'r ysgol i gael fy nghanlyniadau, mi fyddaf yn derbyn fy nghanlyniadau ar ffurf e-bost. Mae'r holl sefyllfa wedi bod yn swreal.

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Mae llawer o unigolion wedi bod yn ailasesu eu gyrfaoedd yn ystod y Cyfnod Clo ac wedi penderfynu lansio busnes newydd. Rydym nawr yn cynnig ymgynghoriad 30 munud am ddim i unrhyw un sy'n sefydlu busnes newydd ac sydd eisiau cyngor.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio bwrsari newydd ar gyfer busnesau newydd a sefydlwyd ers 1 Ebrill 2019 a chyn 1 Mawrth 2020 o hyd at £2,500. Mae hyn yn newyddion gwych i'r rhai sydd ddim wedi bod yn gymwys am gymorth hunangyflogedig hyd yma. Ewch i wefan y Llywodraeth ar: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/cy
3. Mae Huw yn cynnig gwasanaeth newydd ar gyfer paratoi a chyflwyno ffurflenni Atwrnai Iechyd ac Ariannol, ochr yn ochr â'r adolygiadau o ewyllysiau a chynllunio ar gyfer Treth Etifeddiaeth.
4. Yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Dreth wedi anfon datganiadau yn rhoi manylion symiau treth sy'n ddyledus. O achos Covid, maent wedi caniatáu i bobl ohirio taliadau treth incwm sy'n ddyledus erbyn 31 Gorffennaf 2020 i 31 Ionawr 2021. Mae sawl datganiad wedi cynnwys nifer o wallau, gan achosi cryn ddryswch. Cysylltwch â ni os oes angen eglurhad arnoch.

**Cwestiynau i Huw ac Aled**: *Yn ddiweddar, dw i wedi dechrau gyrfa llawn amser fel canwr proffesiynol a dwi'n ennill arian trwy enillion cystadlaethau. A yw'r enillion yma yn drethadwy, nawr fy mod i'n gwbl broffesiynol?*

Yn ystod y cyfnod o fod yn fyfyriwr, dyw gwobrau cymharol fach ddim yn dueddol o fod yn drethadwy. Fodd bynnag, os yw gwobrau cystadleuaeth yn sylweddol ac yn rheolaidd, fe'u hystyrir yn incwm masnachu.

Mae hyn yn faes niwlog o fewn canllawiau'r Swyddfa Dreth ac mae angen ystyried yn ofalus os yw'r incwm yn drethadwy ai peidio. Gofynnwch i'ch cyfrifydd.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymrodorion Y Barri

### AR ANTUR DDIGIDOL

Mae'n siwr bod cyfnod y corona wedi bod yn her i bob Cymdeithas yng Nghymru, ac mae Cymrodorion y Barri wedi penderfynu wynebu'r her doed a ddelo. Ers i aelodau'r Tabernacl roi'r capel ar werth, collodd y Cymrodorion eu cartre, a symudwyd y lleoliad i Lyfrgell y Barri a chael croeso hynod o gynnes yno.

Dechreuodd y Cymrodorion yn yr oes Edwardaidd ym 1906, ond bellach mae'r aelodau wedi mynd ati i gofleidio'r oes ddigidol. Penderfynwyd mewn cyfarfod Zoom o'r pwyllgor yn ddiweddar y byddwn yn parhau i gynnal ein cyfarfodydd dros dymor y Gaeaf trwy ddefnyddio platfform Zoom i ddechrau, ac yna symud yn ôl i'r Llyfrgell maes o law, pan ddaw hi'n bosib cyd-gyfarfod unwaith eto.

Ar 15 Medi eleni rydym wedi gwahodd Mererid Hopwood i draddodi'r ddarlith arobryn a roddodd i Ŵyl y Gelli ar 'Iaith', ac mae edrych ymlaen brwd at hynny.



Mi fyddwn wrth gwrs yn gwneud ymdrech i gynnwys yr aelodau sydd heb gyfrifiadur, i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn cael cyfle i wylio'r ddarlith.

Mae gan y Cymrodorion raglen gyflawn ar gyfer y Gaeaf a'r Gwanwyn o 15 Medi tan 28 Mai, gyda siaradwyr difyr ac amrywiol. Ni fyddwn yn argraffu Cardiau Aelodaeth eleni am resymau amlwg, ond byddwn yn cyhoeddi'r rhaglen gyflawn ar ein tudalen Facebook, ac yn y *Dinesydd* yn fuan. Gobeithiwn y gall pob un a fynn ymuno â ni, yn antur ddigidol Cymrodorion y Barri.


Yn ystod y Clo Mawr fe gollwyd un o anwyliad y Cymrodorion, sef Alcwyn Deiniol, gan adael bwlch enfawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn annwyl iawn â Rhoswen a'r teulu oll.


*Eiry Palfrey*

## Cymrodorion Caerdydd

Ni fydd tymor nesaf Cymrodorion Caerdydd yn dechrau tan Ionawr 2021. Mae'r pwyllgor wedi dod i'r penderfyniad y bydd y gymdeithas yn cyfarfod yn fisol, os yw amgylchiadau yn caniatáu, am bum mis cyntaf 2021. Dewiswyd rhaglen o siaradwyr ar gyfer y tymor yn y gobaith y bydd modd ymgynnull yn ddiogel erbyn hynny.

## Rhif: 205




### Ar Draws

7. '----- ----- ----- ----- ei gartref
 Yn y galon euog ddu' (JHH) (5,2,1,5)
8. Rhyw 'nage' drwg yn dal y dre n'ôl (7)
9. 'Bydd yn -----, paid â llithro
 Er mor dywyll yw y daith' (cyf BD) (4)
10. Gadael ôl ar ddiagram (6)
12. Pwyso i lawr ar ganol y bedol (6)
14. Llid Diana a'r cert wedi torri (6)
16. 'Cwsg ni ddaw i'm hamrant heno,
 ----- ddaw ynghynt' (JM-J) (6)
18. Rhan o'r trwsiad yn Lloegr (4)
20. Mae Nansi ac Edith yn dal y cotiau (7)
22. 'Adar ----- ----- ----- -----
 Godant yn yr awyr iach' (JCH) (3,1,5,4)

### I Lawr

1. Mae bardd doli rywsut yn siarad dwli (8)
2. 50 broga yn llamu yn drachwantus (6)
3. Cryn dyfiant ar y pen (4)
4. Llid y pysgod gollodd eu pen heb noddfa (8)
5. Fe niweidia bennau aelodau newydd druan wedi ymgyrch aflwyddianus (6)
6. Gorchuddio ag aur yr arian (4)
11. Estyn bron i ganol y ffordd mewn coedwigoedd (8)
13. Gwegil i rywun sy'n dangos cwrteisi (8)
15. Chwythu dant y llew heb ei we yn eirias (6)
17. Gwêl y mefus wedi eu gwasgu i'r min (6)
19. Gwasgu amryfal ffrwythau (4)
21. Pa esgyrn ar yn ail sy'n gwneud mul? (4)

**Enillydd Croesair Rhif 203**
**Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch, Pwllheli**

**Atebion Croesair Rhif 203**

**Ar Draws:** 1. Castanwydden 9. Rwsiaid 10. Oscar 11. Oedfa 12. Yn dilyn 13. Esgus 15. Groes 17. Brawdle 19. Abaty 21. Bachog 22. Traddodi 23. Teimlo'n unig

**I Lawr:** 2. Ansad 3. Trahaus 4. Nodwydd 5 Y Coed 6. Encilio 7. Crio fel babi 8. Wrth noswylio 14. Gwarchae 15. Gwamalu 16. Temtio 18. Degwm 20 Achosi

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Medi, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Cerdd amserol gan ein colofnydd, Hannah Roberts

**Beth yw'r haf i mi?**

Haf heb holi yw hwn,
gwylie heb gwestiwn.

"Ti'n mynd i'r steddfod?"
"Am wthnos?"
"Ble ti'n aros?"
"Ti'n cystadlu?"

Ofer yw lleisio'r arfer!
Ni chawn 'leni weled 'sêr'.

"Beth yw'r haf i mi?"
heb gario llwyth i'r garafan,
heb arwyddion yr AA
(a'u hwfftio – eto!!)
heb gae'n ganolfan,
heb raglen yn drefen dydd,
heb GWYNO!
o'r toiledau i'r trefnu!
heb -
"Helo, sut 'dach chi?"
"Wel helo, shwd y'ch chi te?"

Dim gorsedd, a dim urddo;
pe bae 'ma, beth wede Iolo?

Cadair wag,
a'r goron heb gopa.
Dim diwylliant yn boddi bro,
dim byd
ond gofod,
a gofid,
a holi –

"Pryd?"

# Clwb Golff
# Yr Eglwys Newydd

Sefydlwyd Clwb Golff yr Eglwys Newydd yn 1914 gyda'r Parchedig T. Ewbank, y Cadeirydd cyntaf, yn allweddol yn y trafodaethau. Derbyniwyd benthyciad o £100 gan Mr Herbert Thomas, un o berchnogion Gwaith Tinplate Melin Gruffydd a dechreuwyd ar y gwaith o edrych am safle. Cymerodd ddwy flynedd i ddod o hyd i un addas ac yna daeth y cyfle i brynu Fferm Pentwyn ar ôl i Bentref Gerddi Rhiwbeina rhyddhau opsiwn ar y tir. Agorwyd cwrs 9 twll oedd yn ymylu â Heol y Gogledd (*North Road*), fel y gelwir hi ers 50au y ganrif diwethaf) a Heol Pantmawr. Yn 1922 prynwyd 45 acer ychwanegol a chreuwyd cwrs 18 twll gan sicrhau dyfodol y clwb.

Datblygodd y cwrs a thyfodd y coed (er mawr rwystredigaeth i rhai chwaraewyr), ac erbyn heddiw ystyriwyd y cwrs fel un o'r goreuon yng Nghymru ac efallai y gorau ymhlith cyrsiau parc. Yn ystod y cyfnod diweddar o *lockdown* ceuwyd y cwrs i chwaraewyr golf. Agorwyd y gatiau i deuloedd Rhiwbeina a'r cylch er mwyn iddynt gael cerdded y rhodfeydd perffaith ac edmygu y coed bendigedig ond ar yr un pryd cadw pellter priodol. Syfrdanwyd pawb gan brydferthwch y cwrs a chafodd llawer o blant (gan gynnwys fy wyresau – Megan, Martha, Elin a Mari) gyfle i rowlio lawr y llethrau, chwarae yn y tywod a gwylio'r miloedd o benbyliaid yn y pyllau dŵr sydd wrth ochr y 18fed rhodfa.



*y llyn lle bu'r penbyliaid*

Ers diwedd mis Mai 'rydym nôl yn chwarae. Mae'r cystadlu brwd wedi ail ddechrau er ein bod wedi'n cyfyngu i chwarae mewn parau. Nid oes cyfle i gymdeithasu wedi'r chwarae oherwydd bod Tŷ y Clwb ar gau ond mae argoelion o ail agor, o dan reolau diogelu iechyd, cyn diwedd mis Gorffennaf.

Mae cystadlu yn rhan bwysig o'r gêm golff. Ar ddydd Sadwrn arferol yn yr haf gwelir dros 200 yn brwydro'n galed am y gwobrau. Ar ddydd Llun mae'r aelodau hŷn yn cystadlu ymhlith ei gilydd ac ar ddydd Mawrth y merched. Un peth arbennig am golff yw'r system handicap sy'n galluogi chwaraewyr o amrywiol safonau gystadlu ar lefel gyfartal. Weithiau gwelir chwaraewr gyda handicap uchel yn ennill a rhai chwaraewyr yn hanner awgrymu bod handicap yr enillydd yn rhy uchel, ond ar y cyfan gwneir hyn mewn ysbryd da. Un elfen arall bwysig yw gonestrwydd chwaraewyr wrth gofnodi sgoriau. Braf yw nodi safonau uchel yn yr Eglwys Newydd a chlybiau golff Cymru.

Teg nodi nad ydi'r iaith Gymraeg wedi cael lle amlwg yn y clwb dros y blynyddoedd. Er hynny mae'r sefyllfa wedi gwella'n sylweddol o'r cyfnod pan ofynnwyd i rai ohonom, gan aelod neu ddau ar y pryd, i beidio â siarad Cymraeg gyda'n gilydd. Heddiw mae dros 30 o aelodau'r clwb yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith, ar bob cyfle, heb amharchu neu di-ystyru yr aelodau di-Gymraeg. Braf hefyd yw gweld eglwysi a chymdeithasau Cymraeg y ddinas fel Eglwysi Ebeneser a Minny Street a Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yn defnyddio'r Clwb i ddathlu'r Nadolig a Gŵyl Ddewi. Edrychwn ymlaen i ail ddechrau y ciniawa a'r dathlu yn awyrgylch braf yr ystafell fwyta.

Os oes unrhyw un â diddordeb i ymuno â Chlwb Golff yr Eglwys Newydd, cysylltwch gyda'r rheolwr, Christian Bannister, ar 02920 620985.

*Eynon Williams*

## Marw heb Ewyllys

Heb ewyllys, mae eich ystad yn atebol i'r gyfraith. Mae'r Rheolau Marwolaeth Heb Ewyllys yn rhestru mewn trefn benodedig y perthnasau gwaed hynny a fyddai'n etifeddu. Mae'r rhestr hon yn gymharol gyfyng ac os nad oes unrhyw un o'r perthnasau a benodir yn y rhestr wedi eich goroesi yna aiff eich holl eiddo i'r Goron.

Heb ewyllys, os ydych chi'n briod a bod gennych blant a bod gwerth eich ystad yn fwy na £270,000, ni fydd eich gŵr neu wraig yn etifeddu popeth. Byddant yn etifeddu £270,000 a rhennir y gweddill yn gyfartal rhyngddyn' nhw a'ch plant. Os yw gwerth eich cartref yn fwy na £270,000 nid yw hyn yn ddelfrydol ac fe all achosi trafferthion mawr.

Mae ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi benodi gwarchodwyr ar gyfer plant ifanc. Heb benodiad fel hyn gallai fod anghytuno mawr ynglŷn â phwy fydd yn gofalu amdanyn nhw ar ôl eich marwolaeth.

Heb ewyllys, oni bai eich bod yn briod gyda'ch partner neu mewn partneriaeth sifil gyda nhw, fydden nhw'n cael dim byd. Chaiff llys blant nad ydych wedi'u mabwysiadu ddim byd 'chwaith os nad oes ewyllys. Mae gwneud ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi ddarparu ar gyfer teuluoedd estynedig.

Mae ewyllys hefyd yn eich galluogi i nodi dymuniadau penodol ar gyfer eich angladd. A ydych am gael eich claddu neu i'ch corff gael ei amlosgi? Efallai bod gennych gyfarwyddiadau penodol ynglŷn â lle y dymunwch gael eich claddu neu lle y dymunwch i'ch gweddillion gael eu gwasgaru.

Mae gwneud ewyllys gan wybod eich bod wedi nodi eich dymuniadau yn dod â thawelwch meddwl, ac yn sgil yr argyfwng presennol, mae hi efallai yn bwysicach nag y bu hi erioed i wneud ewyllys.

Os hoffech drafod llunio ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

**Ruth Ceri Jones LL.B.**

Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau